Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Cynnal sbin

Asesiad ar brif-ffrydio datblygu cynaliadwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru

Awdur
Gordon James

Ar ran
Cyfeillion y Ddaear Cymru

Ionawr 2004

CYNNWYS

1. Crynodeb gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Cefndir
4. Cynnal dryswch
5. Cymru fwy cynaliadwy
6. Asesiadau o'r cynnydd
6.1 Adroddiad Davidoff
6.2 Adroddiad Netherwood
6.3 Adroddiad WWF/Flynn
6.4 Adroddiad ymgynghorwyr CAG
7. Swyddi a'r amgylchedd
8. Cynllunio
9. Astudiaethau achos
9.1 Ysgol John Bright, Llandudno
9.2 'Ffordd newydd' Rhiw Penrhyn Llŷn
9.3 Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr
9.4 Trowbridge, Caerdydd
9.5 Ffordd Osgoi
9.6 De Sebastopol, Pont-y-pŵl
9.7 Parc Hamdden Bluestone, Sir Benfro
10. Casgliadau ac argymhellion
11. Cyfeiriadau

1. Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad yn archwilio prif-ffrydio datblygiad cynaliadwy (DC) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru o gofio dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo DC. Fe'i bwriadwyd fel cyfraniad i ymgynghoriad ar ei dymor pedair blynedd o weithredu'r dyletswydd a chyfrwng i greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r pwnc ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol a grwpiau ymgyrchu.

Mae'n dechrau drwy gyflwyno trosolwg o sut mae'r Cynulliad yn dehongli'r dyletswydd hwn a'r dull a ddefnyddia i'w gyflwyno i'r lleygwr, gall hyn fod yn eithaf dyrys oherwydd yr anhawster o ddehongli cysyniad DC, gan ddeall y prosesau Cynulliad perthnasol a chael y wybodaeth gywir. Nid gwefan y Cynulliad bob amser yw'r hawsaf i lywio drwyddo.

Mae'r adroddiad wedyn yn crynhoi pedwar asesiad a wnaed yn ddiweddar o berfformiad y Cynulliad yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed i hyrwyddo'r cysyniad gwreiddiol hwn a'i integreiddio i weithgareddau'r Cynulliad ond noda nifer o anawsterau a diffygion. Efallai mai'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r gydnabyddiaeth bod y polisi DC ddim hyd yn hyn wedi cyflwyno newid ymarferol. Rheswm pwysig am hyn yw methiant awdurdodau lleol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i integreiddio DC yn ddigonol yn eu gweithgareddau.

Cafodd ymrwymiad y Cynulliad i hyrwyddo DC fel y'i hamlinellir yn Adran 121 o Ddeddf Llywodraethu Cymru, a'i ymdrech i gyflawni hynny drwy Gynllun a Chynllun Gweithredu DC eu cymeradwyo yn eang. Gwnaed datblygiad da i godi ymwybyddiaeth o'r pwnc yn y Cynulliad a rhai cyrff eraill ledled Cymru Cafodd ei ganmol am y dull y prif-ffrydiodd DC i'w bolisïau ac am y lefel uchel o ymroddiad gan Weinidogion. Cymerodd y brif rôl mewn mabwysiadu'r ôl-troed ecolegol fel un o'i brif ddangosyddion DC, mewn sefydlu Is-Bwyllgor Cabinet ar DC ac mewn ymwneud â chydweithrediad rhyngwladol i hyrwyddo DC.

Gwêl yr adroddiad hwn, fodd bynnag, wrth asesu'r cynnydd yn ystod tymor pedair blynedd gyntaf y Cynllun, fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, bod dealltwriaeth wan o'r hyn y mae DC yn ei olygu yn parhau, ac nad yw gweithredoedd unigolion a chyrff wedi newid fawr iawn o ganlyniad i gylch gwaith y Cynulliad. Mae'r astudiaethau achos a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos darlun cywilyddus o fethiant awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgorffori egwyddorion DC yn y broses gynllunio.

Dylai'r flaenoriaeth gael ei roi i wella'r ddealltwriaeth o'r hyn a ystyrir yn aml fel cysyniad aneglur drwy gynnig diffiniad cliriach o ddatblygiad cynaliadwy wedi ei gefnogi gan enghreifftiau ymarferol o weithgareddau cynaliadwy. Mae angen i hyn gael ei gyfathrebu'n rhagweithiol i bartneriaid y Cynulliad ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dylai mesuriad o gynnydd sy'n rhoi ystyriaeth i ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, megis y Mynegai Lles Economaidd Cynaliadwy ddisodli'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth sydd wedi'i ganolbwyntio'n economaidd.

Un o'r rhwystrau mwyaf i dderbyn datblygiad cynaliadwy yw ei gysylltiad gyda materion amgylcheddol a'r ddrwgdybiaeth y gall gwarchod yr amgylchedd niweidio'r economi a swyddi. Dengys tystiolaeth fod hyn yn gamdybiaeth ac mewn gwirionedd mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Argymhella'r adroddiad hwn bod y Cynulliad yn comisiynu adroddiad i ymchwilio'r berthynas rhwng arferion amgylcheddol da a chreu swyddi.

Mae Cynllunio'n ganolog i gyflwyno DC ac mae hyn yn cael ei gydnabod ym mholisïau cynllunio'r Cynulliad. Serch hynny, mae'n ymddangos mai dim ond ychydig o gynnydd a wnaed mewn rhoi polisïau cynllunio sy'n cydweddu â DC a dylai'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn fod yn ddeunydd darllen anghyfforddus i unrhyw un sy'n meddwl fel arall. Materion sy'n bryder, er enghraifft, yw'r gwrthdaro buddiant sy'n wynebu awdurdod lleol sy'n gallu cynhyrchu refeniw sylweddol o ddatblygiadau ar eu daliadau a'r gwrthdaro rhwng rôl y Cynulliad fel asiant ar gyfer newid ac fel yr awdurdod cynllunio terfynol yng Nghymru. Hefyd beirniadwyd y berthynas agos rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol, gyda'r ddau olaf yn cael eu beirniadu o fod â dylanwad gormodol a'u bod yn amharod i dderbyn DC.

Mae'r saith astudiaeth achos a archwilir gan yr adroddiad hwn yn dangos bod y pryderon hyn yn deg. Rhoddant fanylion graffig o'r ddealltwriaeth wael o DC, os nad dirmyg tuag ato, sy'n bodoli ar lefel yr awdurdodau lleol gyda pholisïau cynllunio, blaenoriaethau amgylcheddol a barn leol yn aml yn ail gwael i ystyriaethau ariannol. Mae gwrthodiad Llywodraeth y Cynulliad o geisiadau rhesymol i alw ceisiadau cynllunio i mewn sy'n amlwg yn torri polisi cynllunio ac egwyddorion datblygiad cynaliadwy wedi achosi dicter gwirioneddol mewn nifer o gymunedau ac wedi tanseilio ei gymwysterau DC.

Mae'r astudiaethau hyn yn dangos y casgliadau a wnaed gan asesiadau eraill o berfformiad DC y Cynulliad, fod awdurdodau lleol wedi dangos fawr o ddiddordeb yn y pwnc, na dealltwriaeth ohono, nad yw polisïau datblygu cynaliadwy wedi eu troi yn arferion yn y Cynulliad nac mewn cyrff eraill, bod fawr o dystiolaeth bod newid yn digwydd ar lawr gwlad, nad yw'r materion tyngedfennol wedi eu dynodi nac wedi mynd i'r afael â hwy yn ddigonol, bod Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gyndyn i ymyrryd ar lefel llywodraeth leol a bod angen iddo fod yn fwy rhagweithiol yn y cyrff y mae'n eu hariannu. Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi llawer o'u hargymhellion, megis y dylai ariannu i awdurdodau lleol gael ei wneud yn amodol ar eu bod yn gwella polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol ac y dylid ymgorffori DC i gytundebau polisi.

Mae'n werth nodi bod Gweithrediaeth yr Alban, nad oes ganddi ddyletswydd i hyrwyddo DC, eisoes yn gorfodi adrannau i wneud cais am arian i gwrdd â'i hamcanion i hyrwyddo cynaliadwyedd ac mae eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau i gyflwyno Mesur Asesiad Amgylcheddol Strategol a fydd yn sicrhau y bydd rhaid i'r holl gyrff sector cyhoeddus asesu effaith eu penderfyniadau ar yr amgylchedd. Bydd y Mesur yn ychwanegol at ofynion Cyfarwyddyd Asesiad Amgylcheddol Strategol y DG.

Un o argymhellion arwyddocaol yr adroddiad hwn yw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno hawliau apelio 'trydydd parti' mewn ceisiadau cynllunio dadleuol er mwyn cynorthwyo cymunedau i gael canlyniad tecach a mwy cynaliadwy ac i wella ansawdd a chyfreithlondeb penderfyniadau cynllunio. Byddai hyn yn offeryn hollbwysig mewn cynorthwyo i atal yr arferion niweidiol amgylcheddol a chymdeithasol a ganfuwyd yn yr astudiaethau achos. Mae hefyd yn argymell cyflwyno gofynion y Gyfarwyddiaeth Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn cynnwys asesiadau'r effaith ar iechyd, ar y cyfle cyntaf, ar gyfer pob cynnig datblygu sylweddol.

Yn gyffredinol, mae Cynulliad Cymru, er ei fod wedi gwneud dechrau da mewn rhai cyfeiriadau, wedi gwneud cynnydd cyfyngedig mewn rhoi ei ddyletswydd DC ar waith. Yn ystod ei ail dymor, bydd yn wynebu'r her sylweddol o newid o bolisïau DC i'w rhoi ar waith. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen arweiniad cadarnach gan Lywodraeth y Cynulliad gan Lywodraeth y Cynulliad, yn arbennig ym maes cynllunio. Byddai galw prosiect Bluestone i mewn, yng ngoleuni y modd y mae'n gwrthdaro â Pholisi Cynllunio, yn rhoi cyfle cynnar i Lywodraeth y

Cynulliad ddangos ei bod, yn ystod ei hail dymor yn barod i roi arweiniad cadarnach i droi polisi yn weithredu. Byddai methu llwyddo yn y prawf hwn i brofi ei ymroddiad i DC yn darparu awgrym pellach nad yw yn alluog i wneud y gwaith, bod ei hymrwymiad yn ddim amgen na phecynnu rhith.

Mae'n rhaid hefyd yn y dyfodol gael sylweddoliad llawer gwell o werth yr amgylchedd naturiol. Dengys yr astudiaethau achos dro ar ôl tro mai'r rhan amgylcheddol yn yr adeiladwaith triphlyg yw'r un gyntaf i gael ei hepgor. Ymddengys hyn yn ffordd ffôl o ymddwyn tuag at, yr hyn sydd wedi'r cyfan, yn bennaf cynhaliaeth i ni, sydd ar hyn o bryd o dan fwy o fygythiad nag erioed o'r blaen o ganlyniad i effeithiau gweithgareddau dynol

2. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn a gomisiynwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru yn archwilio prif-ffrydio datblygu cynaliadwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru yng ngoleuni dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo DC. Aseswyd i ba raddau y cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy edrych ar nifer o astudiaethau achos yn ymwneud â nifer o achosion achos mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cynhyrchir yr adroddiad mewn ymateb i bapur ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Dechrau Byw'n wahanol', ar adolygiad ei Gynllun DC cyntaf, sy'n digwydd rhwng Hydref 2003 a Ionawr 2004. Comisiynwyd nifer o adroddiadau eraill fel rhan o'r broses o asesu tair blynedd gyntaf y Cynllun a cheir crynodeb o'r rhain gan gyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn. Er iddo gael ei fwriadau yn gyntaf fel cyfraniad i'r broses ymgynghori hon, anela'r adroddiad hefyd at greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r materion ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ac yn arbennig ymhlith grwpiau ymgyrchu.

3. Cefndir

Defnyddiwyd y term datblygiad cynaliadwy gyntaf yn y Strategaeth Gadwraeth Byd ym 1980 ond daeth yn amlwg yn adroddiad 'Bruntland' 1987 (Ein Dyfodol Cyffredin) i Gomisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu. Diffinia hyn ddatblygiad cynaliadwy fel:

"datblygiad sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain"

Yn Uwch-gynhadledd y Byd Rio De Janeiro, ym 1992 cydnabu 178 o lywodraethau bod patrymau cynhyrchu a defnyddio wedi dod yn brif achos diraddiad amgylcheddol byd-eang ac nad allai gael ei gynnal ddim hwy. Mae hyn yn bryder dilys. Ers i'r oes yr iâ diwethaf ddod i ben 11,000 o flynyddoedd yn ôl, amcangyfrifwyd bod tua 30 cymdeithasau trefol wedi dymchwel oherwydd y bwlch cyfwng rhwng y galw dynol a chyflenwadau naturiol, mewn gair, anghynaliadwyedd. Ymrwymodd y llywodraethau yn Uwch-gynhadledd y Byd i ddiwygio patrymau presennol defnydd a chynhyrchu er mwyn gwneud datblygu at y dyfodol yn gynaliadwy ac, ym 1994, cyhoeddodd Llywodraeth y DG ei strategaeth ddatblygu cynaliadwy cyntaf. Seiliwyd hwn ar bedwar prif amcan:

- cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb
- gwarchod yr amgylchedd yn effeithiol
- cynnal lefelau uwch a chyson o dwf economaidd
- defnydd darbodus o adnoddau naturiol.

Yng Nghymru aed â'r ymrwymiad hwn gam ymhellach pan, ym 1998, yn adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru rhoddodd Cynulliad Cymru ddyletswydd i ymrwymo'n gyfreithiol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Drwy hynny daeth Cymru i fod yn un o dair gwlad (Estonia a Thasmania yw'r ddwy arall) ag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy wedi'i ymgorffori yn ei chyfansoddiad.
.

Dywed Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru fod:

Datblygu Cynaliadwy	**121.** - (1) Bydd y Cynulliad yn creu cynllun yn nodi sut y bwriada, wrth arfer ei swyddogaethau, hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
	2) Bydd y Cynulliad yn cadw'r cynllun o dan arolygiad ac yn y flwyddyn yn dilyn pob etholiad cyffredin (yn dilyn yr un cyntaf) yn ystyried a ddylid ei ail-greu neu ei ddiwygio.
	(3) Ni all y Cynulliad ddirprwyo swyddogaeth, creu, neu ail-greu na diwygio'r cynllun.
	(4) Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi'r cynllun pan gaiff ei greu a phryd bynnag y caiff ei ail-greu ac, os diwygir y cynllun heb ei ail-greu, yn cyhoeddi naill ai y diwygiadau neu'r cynllun fel y'i diwygiwyd (yn ôl yr hyn a ystyria'n briodol).
	(5) Bydd y Cynulliad yn ymgynghori â'r personau neu'r cyrff hynny a ystyria yn briodol cyn creu, ail-greu na diwygio'r cynllun.
	(6) Bydd y Cynulliad ar ôl pob blwyddyn ariannol yn cyhoeddi adroddiad ar y modd y bydd ei gynigion fel y'i nodir yn y cynllun wedi eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol honno.
	(7) Yn y flwyddyn yn dilyn pob etholiad cyffredin (yn dilyn y cyntaf) bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad yn cynnwys asesiad o ba mor effeithiol fu ei gynigion (fel ei nodir yn y cynllun a'u gweithredu) mewn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Mae gofynion Adran 121 yn gosod Cynulliad Cymru ar gwrs arloesol o geisio integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i''w holl bolisïau a gweithgareddau, ac o wneud hynny drwy'r broses gynhwysol o ymgynghori, cydweithredu ac adolygu. Rhoddodd hyn her sylweddol i'r weinyddiaeth newydd gan nad oedd bron unrhyw enghreifftiau o ymrwymiad o'r fath i ddatblygu cynaliadwy ar lefel genedlaethol y gellid dysgu ganddynt.

Gofyniad cyntaf Adran 121 oedd i'r Cynulliad "*wneud cynllun yn nodi…. sut i hyrwyddo datblygu cynaliadwy*". Cyflwynwyd hyn ym mis Ionawr 2000, fel dogfen ymgynghori (Cymru Gynaliadwy – Dysgu Byw'n Wahanol') gan Alun Michael, y Prif Weinidog ar y pryd, cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad a'i gymeradwyo'n unfrydol ar Dachwedd 16^{eg} 2000. Ym mis Mawrth 2001, cynhyrchwyd Cynllun Gweithredu yn rhoi manylion sut y cafodd y Cynllun a roddir ar waith ei gynhyrchu. Sefydlwyd Uned Datblygu Cynaliadwy arbennig ynghyd ag is-bwyllgor cabinet ar DC. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn hynny wedi cyhoeddi tri adroddiad cynnydd blynyddol ar roi'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Mae Adran 1 y Cynllun DC yn datgan y bydd yn darparu "*fframwaith bontiol ar gyfer holl waith y Cynulliad*" a bod "*rhaid prif-ffrydio egwyddorion datblygu cynaliadwy i'r modd y mae'r Cynulliad yn gweithredu".* Caiff y Cynllun Gweithredu "*ei gyflwyno drwy www.betterwales.com – Cynllun Strategol y Cynulliad*".

Gellir gweld tystiolaeth o'r ymrwymiad i DC drwy ddatganiadau polisi'r Cynulliad. Yn y rhagair i'r Fframwaith Trafnidiaeth ar gyfer Cymru (2001), er enghraifft, dywed Sue Essex y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar y pryd bod "*system drafnidiaeth well a chynaliadwy yn ganolog i'n nodau strategol*" a bod y "*Fframwaith yn rhoi llwyfan i gyflwyno hyn yn unol ag egwyddorion Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad*". Dywedodd Rhodri Morgan Prif Weinidog y Cynulliad yn ei ragair i 'Cymru'n Ennill' mai hon yw "*strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer trawsffurfio economi Cymru tra'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy*". Mae "Wise about Waste" y strategaeth wastraff ar gyfer Cymru, "*yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu arfer rheoli gwastraff yng Nghymru*" ac mae'n neilltuo pennod gyfan i reolaeth Adnodd Cynaliadwy. Pwysleisia adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar bolisi ynni yng Nghymru yr angen i "*sicrhau cynaliadwyedd ffynonellau cyflenwi*". Ac ym maes hollbwysig cynllunio, diben 'Polisi Cynllunio Cymru' yw "*gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir cynaliadwy*" tra bod Cynllun Gofodol Cymru, 'Pobl, Lleoedd, Dyfodol' yn cyflwyno "*y weledigaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy i Gymru*".

Gellir gweld ymrwymiad tebyg ym mholisïau'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithio yn agos gyda'r Cynulliad. Lluniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gytundeb ar ddatblygu cynaliadwy gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn datgan "*mai'r ffactor bwysicaf ymhlith yr amcanion a rennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol yw hyrwyddiad a chyflawniad datblygu cynaliadwy*". Mae datganiad polisi Awdurdod Datblygu Cymru ar DC, 'Dysgu Gweithio'n Wahanol', yn ymrwymo'r corff i weithio o fewn y fframwaith DC a sefydlwyd gan Lywodraeth y DG a chan Gynllun DC y Cynulliad. Dywed Cynllun Gweithredu DC Cyngor Cefn Gwlad Cymru, "*bod datblygiad cynaliadwy wrth wraidd gwaith CCGC ac wrth wraidd popeth a wnawn*". Mae cynaliadwyedd yn un o bedair thema cynaliadwyedd 'Cyflawni'n Potensial' y strategaeth genedlaethol ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Er hynny mae datganiad y Bwrdd Croeso " *nad oes diffiniad penodol o dwristiaeth gynaliadwy wedi'i lunio hyd yn hyn*" (1) yn adlewyrchu dryswch sylweddol ynglŷn â beth yn hollol y mae'r term DC yn ei olygu. Gall gynrychioli ymgais ddifrifol i ddatrys gwrthdaro buddiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn rhy aml, serch hynny, gall hefyd ymddangos ei fod yn ddim mwy na rhywbeth derbyniol, math o wyngalch sy'n ymgais i guddio arferion andwyol.

4. Cynnal dryswch

Rhaid mai DC yw un o'r termau a ddefnyddir fwyaf ac a ddeellir leiaf yn ein cyfnod. Er ei fod yn cael ei ystyried yn ddelfryd aruchel, mae cryn ddryswch ynglŷn a beth a olyga mewn gwirionedd. Rhoddir awgrym o hyn yng nghynllun strategol y Cynulliad, *Cymru Well,* a fabwysiadodd ddatblygiad cynaliadwy, mynd i'r afael â difreinedd cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal fel ei dair prif thema. Gan fod difreinedd cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal yn agweddau pwysig ar ddatblygu cynaliadwy, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr, ac yn sicr mae'n ychwanegu at y dryswch, i gael y rhain fel tair thema croestoriol ar wahân . Mae hefyd yn debygol o annog cysylltiad rhwng datblygu cynaliadwy â materion cynaliadwy ymhellach.

Amlygwyd tystiolaeth o'r dryswch cyffredinol hwn mewn nifer o astudiaethau. Manyla adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru ' Treuliant yng Nghymru (2003) ar ganlyniadau cyfweliadau gyda 1,002 o bobl ledled Cymru a wnaed i asesu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy. Canfu hyn :

"Mae mwyafrif sylweddol pobl Cymru yn haeru eu bod yn anghyfarwydd â'r term yn ei gyflawnder. Yn gyffredinol ychydig dros chwarter (26 y cant) a haerodd eu bod yn gymharol gyfarwydd neu gyfarwydd iawn â'r term, a haerodd bron dri chwarter (73 y cant) eu bod yn gymharol anghyfarwydd neu'n gwbl anghyfarwydd â'r term."

Roedd yr ymatebwyr hyd yn oed yn llai sicr o'u gallu i ddisgrifio beth oedd datblygu cynaliadwy yn ei olygu, gyda 6 y cant yn unig yn dweud eu bod yn hyderus iawn i wneud hynny."
Canfuwyd bod yr ychydig ddealltwraieth a fodolai ymhlith gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr yng Nghymru, gyda'r term yn gymharol amherthnasol ymhlith pobl gyffredin ac yn cael ei ystyried gan y cyfryngau, busnesau a hysbysebwyr fel un anniddorol. Ychwanega'r adroddiad:

“Mae llawer o bobl yng Nghymru o hyd yn cymryd camau yn eu bywyd pob dydd i leihau effaith eu ffordd o fyw ar y bydysawd, heb fod yn ymwybodol o'r ddal am ddatblygu cynaliadwy. Serch hynny, mae'n annerbyniol fod pellter fel hyn rhwng iaith y gwneuthurwyr polisi a iaith y bobl."

Daeth adroddiad Davidoff, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i asesu canfyddiadau allanol y Cynllun DC, i'r un math o gasgliad. Canfu *"bod dryswch parhaus ym mhob sector am y term datblygu cynaliadwy".* Teimlai llawer ei bod yn anodd datgysylltu DC oddi wrth amgylcheddiaeth. Mae'r astudiaeth hon efallai o fwy o bryder na'r un flaenorol gan fod y sampl hwn yn un cynrychioliadol o gymuned y gwasanaethau cyhoeddus, academig , proffesiynol, gwirfoddol, a busnes yng Nghymru. Er gwaethaf y dryswch hwn, dywedodd bron pawb a holwyd eu bod yn croesawu ac yn cefnogi Cynllun DC y Cynulliad.

Cydnebydd Meirion Thomas, Cyfarwyddwr Arsyllfan Ysgol Fusnes Caerdydd ar gyfer Rhanbarth Seiliedig ar Wybodaeth Gynaliadwy (OSKaR) ar wefan y rhanbarthau cynaliadwy y diffyg dealltwriaeth, ac mae'n cynnig eglurhad.

"Ceir llawer o dystiolaeth nad yw'r cyhoedd yn hollol ymwybodol o ddatblygu cynaliadwy fel her i Gymru, chwaethach eu bod wedi eu cymell i newid eu hymddygiad i gefnogi datblygu cynaliadwy. Rhan o'r broblem yw bod iaith datblygu cynaliadwy ynddi’i hun yn rhwystr i ddealltwriaeth a gweithredu cyhoeddus."

Rhoddwyd sawl cynnig ar ddiffinio DC. Yr un a ddefnyddir amlaf, a'r un a ddefnyddir yn Adran 2 o'r Cynllun DC yw diffiniad Bruntland sef:

" Datblygiad sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu'r cenedlaethau i'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain".

Rhoddwyd cynnig ar greu diffiniadau mwy defnyddiwr gyfeillgar.

"Ymdrin â'r ddaear fel pe baem yn bwriadu aros arni"

"Byw ar incwm y Ddaear yn hytrach nag erydu ei chyfalaf"

"Mae Datblygiad Cynaliadwy yn syniad hawdd iawn. Mae'n ymwneud â sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, yn awr ac i'r cenedlaethau i ddod"

Mae Cynllun DC y Cynulliad yn ceisio egluro diffiniad Bruntland drwy ddatgan bod *"hyn yn golygu ein bod yn ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhob dim a wnawn".* Ond oni fuom yn gwneud hyn i raddau gwahanol,am lawer blwyddyn beth bynnag? Oni ddylai cylch gwaith pwysicaf y byd hwn olygu mwy na hyn?

Mae'r diffiniadau hyn i gyd yn dioddef oherwydd eu bod yn annelwig a chyffredinol ac yn gallu golygu unrhyw beth ac ni roddant fawr o arwydd o'r dewisiadau anodd a'r cyfaddawdu sy'n rhaid eu gwneud rhwng galwadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y broses ffurfio polisi. A ddylai ardal o ddiweithdra uchel, er enghraifft, gymeradwyo gweithgaredd diwydiannol a fyddai'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd naturiol, ac ar iechyd y bobl ond a fyddai'n creu swyddi mewn un sector tra byddai, mae'n bosibl, yn peryglu swyddi mewn twristiaeth?

Mae Yvonne Rydin o Ysgol Economeg Llundain yn ei phapur, 'In Pursuit of Sustainable Development: Rethinking the planning system', yn awgrymu bod *'gwneuthurwyr polisi a gwleidyddion wedi ei chael hi'n haws ac yn fwy doeth yn wleidyddol i ddibynnu ar amwyseddau cynhenid y cysyniad yn hytrach na mentro cael eu hunain yn glwm wrth ddiffiniad clir a phenodol".*

Dengys diffiniad o'r Undeb Ewropeaidd fod DC yn ddatblygiad lle bo *"twf economaidd, cydlyniad cymdeithasol a gwarchodaeth amgylcheddol yn cydredeg",*(2) ac na ddylai sefyllfa driphlyg materion cynaliadwyedd, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gael ei chymryd i ystyriaeth yn unig yng Nghynllun DC y Cynulliad, ond dylid bod ganddi statws cyfartal.

Yn ei sylwadau i ddogfen ymgynghorol y Llywodraeth 'Cyfleoedd ar gyfer newid' (1998) datblyga Cyfeillion y Ddaear y thema hon. Dywed hyn ynglŷn â'r amcan o gynnal lefelau uchel a chadarn o dwf economaidd, *"mae'r amcan hwn o hyd yn adlewyrchu'r farn gonfensiynol bod twf economaidd yn darparu cyfoeth ariannol a all gael ei ddefnyddio wedyn i fynd i'r afael ag anghyfartaledd a dirywiad amgylcheddol, yn hytrach na'r farn datblygiad cynaliadwy bod mwy o gyfartaledd a chynhwysiad mewn cymdeithas, a gwell gwarchodaeth amgylcheddol yn mynd i gynyddu ansawdd bywyd pobl yn uniongyrchol, ac at hynny yn gallu creu mwy o gyfoeth economaidd."*

- Mae'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) felly yn offeryn amhriodol ar gyfer asesu cynnydd wrth iddo ganolbwyntio ar dwf economaidd heb ystyried costau amgylcheddol a chymdeithasol y twf hwnnw o ran, er enghraifft, dirywiad amgylcheddol, lleihad adnoddau cyfyngedig, afiechyd o ganlyniad i lygredd ac anghyfartaledd cymdeithasol. Nid yw cynnydd yn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn deillio o angenrheidrwydd ar gynnydd cyfatebol uniongyrchol mewn, er enghraifft, gyflogaeth neu well iechyd. Yn yr un modd, byddai'r gost o ddelio gyda'r llygredd olew a achoswyd gan drychineb y Sea

Empress wedi ei nodi fel cyfraniad i'r cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn hytrach na cholled amgylcheddol.

Mae mesuryddion cynnydd eraill, felly, yn cael ei datblygu sy'n cymryd blaenoriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol eraill i ystyriaeth. Mae un o'r rhain, sef Mynegrif Lles Economaidd Cynaliadwy yn rhoi ystyriaeth sgil effeithiau cynhyrchu nas dymunai, megis costau rheolaeth llygredd a damweiniau ffyrdd; colled ansawdd amgylcheddol, megis colli cynefinoedd bywyd gwyllt a dihysbyddiad adnoddau an-adnewyddadwy; a ffactorau cymdeithasol megis gwerth gwaith tŷ ac anghyfartaledd dosbarthiad incwm. Mae'n ceisio cyfuno ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn un mesuriad cyffredinol o les a chynnydd. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd yn annog Llywodraeth y Cynulliad i fabwysiadu mesurydd o'r fath er mwyn asesu'n well y gwaith o roi ei ddyletswydd DC ar waith.

Efallai mai un o'r ffyrdd gorau o greu gwell dealltwriaeth o fater cymhleth megis DC yw darparu enghreifftiau o DC ar waith. Mae mesuryddion cadwraeth ynni, er enghraifft, yn deillio ar fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy:

- wella'r economi drwy leihau biliau ynni a thlodi ynni, drwy greu gwaith lleol i seiri, peirianwyr gwresogi, gwydrwyr dwbl, masnachwyr nwyddau adeiladau ac ati, ac wrth wario'r arian ychwanegol hyn yn y gymuned leol;
- gwella iechyd drwy leihau hypothermia ac afiechydon cysylltiedig â thlodi ynni, drwy leihau aralliadau llygreddau sy'n peryglu iechyd a thrwy greu swyddi
- gwella'r amgylchedd drwy leihau llygredd ac effeithiau newid hinsawdd o brosesu, cludo a llosgi tanwydd ffosil.

Yn yr un modd mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal, yn gwella'r ansawdd amgylcheddol, yn creu cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig ac yn gwella hyfywedd economaidd ffermydd teuluol, tra bod buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn fuddiol i bobl mwy difreintiedig mewn cymdeithas sy'n methu fforddio car, ac mae'n creu llai o effaith niweidiol amgylcheddol ac iechyd o gymharu â thrafnidiaeth ceir neu lorïau ac mae'n creu mwy o gyflogaeth (megis: 'Less Traffic, More Jobs' gan Tim Jenkins a Duncan McLaren o Cyfeillion y Ddaear).

Pa ddulliau bynnag a ddefnyddir, mae'n gysyniad cymhleth i'w drosglwyddo mewn modd y gellir ei ddeall yn hawdd.

5. Cymru fwy cynaliadwy

Er clod iddi, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gyfrwng ei Chynllun DC a'i Chynllun Gweithredu, weledigaeth a rhaglen fanwl sy'n anelu i fynd i'r afael â'r heriau anodd o fyw'n gynaliadwy.

Yn Adran 3.1 yn y Cynllun DC, Dysgu Byw'n Wahanol', mae'r Cynulliad yn ymrwymo i ddilyn gweledigaeth o Gymru gynaliadwy sy'n:

- unedig, hyderus a chreadigol
- wedi ymrwymo i hybu ei hunaniaeth unigryw ac amrywiol, a manteision dwyieithrwydd, tra yn edrych allan yn hyderus ac yn croesawu dylanwadau diwylliannol newydd
- ffyniannus, addysgiedig, yn sgilgar, iach ac yn gyfoethog yn amgylcheddol a diwylliannol
- wedi ei gwasanaethu gan wasanaethau cyhoeddus modern, effeithiol, effeithlon a hygyrch
- gweithio yn ei chymunedau lleol, le caiff pobl leol gyfle i ddatgan ei barn

- decach – yn fan lle mae pawb yn werthfawr ac yn cael cyfle i wneud eu cyfraniad yn llawn
- ac sydd yn lle sy'n gwerthfawrogi ei blant a lle bydd yr ieuenctid am fyw, gweithio a mwynhau ansawdd bywyd da.

Yn ôl Adran 3.2, mae hyn yn golygu:

- y caiff yr amgylchedd ei gwerthfawrogi a'i hamddiffyn fel y'i bod yn parhau'n iach ac amrywiol yn fiolegol, ac yn gallu parhau i'n cynnal ni i gyd
- economi hunan gynhaliol, sy'n parchu cyd-destun amgylcheddol a chymdeithasol Cymru ac yn ymateb i gyfleoedd datblygiad cynaliadwy
- gweithredu i wneud ein cymunedau yn gryf a hyfyw a gwneud pobl yn fwy iach
- bod pobl yn cael eu galluogi i chwarae eu rhan mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- cydnabod anghenion pob rhan o Gymru
- bod Cymru yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy ar lefel fyd-eang ynghyd ag ar y lefel leol.

Mae hon yn weledigaeth i'w chanmol, os nad yn un iwtopaidd, sy'n rhoi syniad o'r materion cydgysylltiedig sy'n rhan o gylch gwaith DC. Er hynny mae'n parhau i ymddangos fel rhestr 'popeth i bawb' nad ellir ei deall yn llawn fel cysyniad neu offeryn polisi.

Mae Adran 4 o'r Cynllun DC yn dangos cefnogaeth y Cynulliad i amcanion DC Llywodraeth y Cynulliad o gynnydd cymdeithasol, gwarchodaeth amgylcheddol, defnydd darbodus o adnoddau naturiol a lefelau uchel a chyson o dwf economaidd a chyflogaeth. Mae'r egwyddorion DC allweddol sy'n sail i'r gwaith hwn yn cynnwys:

- meithrin **ymagwedd tymor hir** i ddiogelu buddiannau cenedlaethau i'r dyfodol tra ar yr un pryd gwrdd ag anghenion pobl heddiw
- atal llygredd mor bell ag y bo modd a **gwneud i'r llygrwr dalu** am y difrod a wnaed
- cymhwyso'r **egwyddor rhagocheliadol** na ddylid gohirio camau cost effeithlon i atal difrod amgylcheddol posibl yn unig oherwydd ansicrwydd gwyddonol ynglŷn â pha mor ddifrifol yw'r risg
- parchu **terfynau** amgylcheddol fel na bo adnoddau yn cael eu dihysbyddu yn anadferadwy neu bod yr amgylchedd wedi'i niweidio'n ddi droi nôl; awgryma hyn, er enghraifft gyfrannu at warchod hinsawdd y blaned; gwarchod a gwella bioamrywiaeth; lleihau arallyriadau niweidiol; hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy ar adnoddau.
- Cymryd **yr ystod llawn o gostau a manteision** i ystyriaeth wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau, yn cynnwys y rhai hynny na ellir eu prisio yn nhermau arian a chan gymryd amseru, peryglon ac ansicrwydd i ystyriaeth.

Mae'r rhain yn egwyddorion heriol a fydd yn codi tensiynau yn anorfod rhwng manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Er enghraifft, byddai gwneud i'r llygrwr dalu costau llawn y niwed a achoswyd yn deillio ar gynnydd enfawr yn lefelau'r dirwyon a osodir yn bresennol ar y troseddau hyn, a byddai'n sicr yn arwain at brotestiadau mawr gan y gymuned fusnes a honiadau y byddai swyddi'n cael eu colli o ganlyniad. Byddai hefyd, yn canolbwyntio meddyliau i sicrhau bod cwmnïau yn gweithredu i safonau uwch a mwy effeithiol a, thrwy hynny, wella eu gallu i gystadlu.

Mae Adran 5 o'r Cynllun 'Cyflawni Dyletswydd' – yn pwysleisio integreiddiad DC i holl weithgareddau'r Cynulliad. Mae hyn yn golygu, bod '*yn rhaid i gynlluniau gwario gydnabod yr angen i amcanion datblygu cynaliadwy gael eu cyflawni' a bod rhaid datblygu 'ffyrdd newydd o*

weithio gyda'n partneriaid". Mae cyfieithu gweledigaeth y Cynulliad yn weithredoedd yn mynd i sicrhau bod "*Cymru ar y blaen wrth arddangos arferion cynaliadwy da".* Er mwyn cydymffurfio gyda DC bydd yr holl bolisïau presennol a newydd (yn cynnwys polisïau caffael), rhaglenni a chynlluniau grant yn cael eu hadolygu dros gyfnod o bum mlynedd mewn 'Archwiliad Gwyrdd' a byddai mecanweithiau gwerth am arian yn cael eu hadolygu a'u mireinio.

Byddai camau gweithredu polisi (Adran 5C) yn cynnwys datblygu ynni cynaliadwy; gwrthsefyll tlodi ynni; integreiddio datblygiadau trafnidiaeth i gefnogi cynhwysiad cymdeithasol a ffyrdd o fyw iachach.; cefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy; diogelu bioamrywiaeth; defnyddio adnoddau ariannu yr UE megis Amcan 1, i gefnogi DC; a gafael mewn cyfleoedd twf mewn sectorau DC allweddol, megis ynni adnewyddadwy, TGCh, technoleg amgylcheddol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cyflwynir polisïau ar gyfer lleihau a rheoli gwastraff; byddai cynllunio yn cydymffurfio gyda amcanion DC; cyflwynir polisi bwyd iach ar gyfer Cymru; a byddai safonau ar gyfer datblygiadau tai cymdeithasol yn cael eu hadolygu i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Nid allai'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno ond drwy i'r Cynulliad weithio mewn partneriaeth gyda'r GE, Llywodraeth y DG, llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus eraill, y sector gwirfoddol, busnesau, arbenigwyr (megis drwy sefydlu Fforwm DC), cymunedau ac unigolion. Mae rôl llywodraeth leol a Chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (3) yn bwysig oherwydd eu gallu i gyflwyno polisïau DC ledled Cymru. Byddai'r Cynulliad yn '*annog llywodraeth leol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy",* yn *"darparu arweiniad, cyfarwyddyd ac arfer gorau",* cydweithredu ar ddatblygu dangosyddion a "chytuno ar gytundeb DC gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru" Mewn cymhariaeth gallai'r Cynulliad gymryd agwedd gadarnach at gyrff cyhoeddus drwy, nid yn unig eu cyfarwyddo a'u hannog, ond drwy eu gwneud hi'n ofynnol iddynt hyrwyddo DC "*drwy eu cynllunio corfforaethol a'u datblygiad polisi".*

Bydd y Cynulliad yn arwain drwy esiampl drwy "*ddatblygu dewisiadau ymarferol i sicrhau bod DC yn cael ei brif-ffrydio... gan ddatblygu offer gwerthuso cynaliadwyedd ar gyfer staff a rhaglen hyfforddi ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau--- gan adolygu polisïau cartrefi gwyrdd... a datblygu cynllun trafnidiaeth werdd ar gyfer stad y Cynulliad".* Byddai'n "*gosod targedau yn ei Gynllun Gweithredu a'u defnyddio i adrodd am y cynnydd"* a "*sefydlu, ac adolygu'n gyson, gasgliad o ddangosyddion datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn adlewyrchu materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol... a'u defnyddio i fesur y cynnydd".*

Yn dilyn ymgynghoriad, mabwysiadwyd casgliad o ddeuddeg o brif ddangosyddion ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2001 yn cwmpasu cyflogaeth, addysg, troseddu, newid hinsawdd, ansawdd awyr, ansawdd dŵr afonydd, bywyd gwyllt, gwastraff, y Gymraeg, trydan o ffynonellau adnewyddadwy ac ôl-troed ecolegol. Mae hyn yn cymharu â phymtheg o brif ddangosyddion ar gyfer y DG, gyda thrafnidiaeth, un o'r dangosyddion mwyaf heriol i fynd i'r afael ag ef, mae'n syndod wedi'i hepgor yng Nghymru.

Derbyniwyd ôl-troed ecolegol, sef asesiad o faint y tir a môr cynhyrchiol sydd ei angen i gynhyrchu'r adnoddau a ddefnyddiwn ac a waredwn yn ein gwastraff, fel meincnod i gynaliadwyedd a fyddai'n gosod perfformiad Cymru mewn cyd-destun byd-eang, yn dilyn argymhelliad gan y Gronfa Natur Fyd-eang WWF Cymru yn nechrau 2001. Tybir mai Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Llywodraeth gyntaf i ddefnyddio ôl-troed ecolegol fel dangosydd cynnydd. Dengys canlyniadau astudiaeth gan WWF Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002, fod angen 5.25 hectar ar bob person yng Nghymru i gynnal eu ffordd o fyw presennol o gymharu â'r cyfartaledd byd-eang o ddim ond 1.9 hectar. Er bod y ffigur ar gyfer Cymru ychydig yn is na'r cyfartaledd i Brydain, y mae'n golygu pe bai pawb ar y blaned yn

defnyddio cymaint â'r hyn a wna pobl Cymru, yna byddai angen bron ddwy blaned ychwanegol arnom i gynnal ein hunain.

Yn olaf, mae'r Cynllun DC yn addo monitro, adolygu, gwerthuso ac adrodd yn ôl ar y cynnydd. Gwneir hyn drwy gyfrwng adroddiad blynyddol ac, mewn cydymffurfiad ag Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru, drwy gynhyrchu, ar ôl pob etholiad, adroddiad effeithlonrwydd ar y Cynllun - 'Dysgu Byw'n Wahanol' ac yna adolygu neu ail-ffurfio'r Cynllun.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn dangos sut mae'r ymrwymiadau yn y Cynllun i'w diwallu, pa gamau gweithredu sydd eu hangen, erbyn pa bryd a chan bwy.

6. Asesiadau o'r cynnydd

Ysgrifennwyd nifer o adroddiadau i asesu effeithiolrwydd Cynllun DC a Chynllun Gweithredu'r Cynulliad er mwyn cyd daro gydag adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o'i Gynllun DC. Efallai fod y math hwn o sylw i fater sy'n derbyn cyn lleied o ddiddordeb cyhoeddus neu ddealltwriaeth yn achosi syndod. Mae'n awgrymu er hynny bod y Cynulliad yn ceisio gwella ymwybyddiaeth o DC a gwella ei gydymffurfiad â'r dyletswydd DC. Mae'r crynodebau canlynol o brif gasgliadau'r adroddiad yn dangos, ar y ddau fater, bod gan y Cynulliad lawer o waith i'w wneud.

6.1. "Adroddiad ar Ganfyddiadau Allanol Cynllun Datblygiad Cynaliadwy Cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru" gan Ella Davidoff, Swyddog Polisi yn Isadran Economaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Comisiynodd Uned Polisi Strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2003 ac, yn ystod y tri mis dilynol, gofynnwyd am sylwadau gan gynrychiolwyr y gwasanaethau cyhoeddus, gweithwyr proffesiynol, y gymuned wirfoddol a busnes yng Nghymru. Ymhlith pawb yr ymgynghorwyd â hwy cafwyd croeso a chefnogaeth i strategaeth gyffredinol y Cynllun a theimlent y byddai'n parhau i fod yn ddogfen bwysig a blaengar. Yr oedd dryswch mawr am ystyr y term 'datblygiad cynaliadwy' gyda llawer yn ei gysylltu â materion 'gwyrdd'. Dadleuodd nifer bod angen i agweddau economaidd DC gael eu hesbonio'n gliriach a bod angen, fel yr awgrymwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cael enghreifftiau ymarferol ar y Cynllun i ddangos beth y mae DC yn ei olygu. Roedd angen dealltwriaeth lawer gwell o ystyr a pherthnasoldeb DC yn ail dymor y Cynulliad.

Credai'r rhan fwyaf ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y Cynllun tra bod nifer llai yn ystyried ei fod wedi cyflawni llawer iawn o ran addysg wleidyddol. Pwyntiodd llawer at fentrau mewn meysydd polisi megis gwastraff, caffael, Strategaeth Coetiroedd Cymru, Tir Gofal a Thir Cymen, y Cynllun Cymorth Organig, Amcan 1, Cynllun Gweithredu Cynhwysiad Cymdeithasol a Bioamrywiaeth. Mae arwyddocâd y Cynllun DC i'r mentrau hyn o gymharu â gofynion cenedlaethol Ewropeaidd a rhyngwladol, fodd bynnag yn ddadleuol. Ac er bod ymdrechion cadarnhaol wedi digwydd i gymryd y ddyletswydd DC o ddifri, roedd cytundeb cyffredinol fod ei effaith wedi'i gyfyngu hyd yn hyn. Teimlwyd bod nifer o bolisïau presennol megis ynni, trafnidiaeth, polisi economaidd a iechyd, yn tanseilio egwyddorion DC. Dyfynnwyd un ymatebydd yn datgan, "*efallai ein bod wedi dysgu siarad a hyd yn oed feddwl yn wahanol, ond nid ydym hyd yn hyn wedi dysgu byw'n wahanol".*

Roedd teimlad cryf y dylai'r Cynulliad fod yn rhagweithiol mewn cyfarwyddo'r asiantaethau a ariennir – y Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad – i gyrraedd newid. Gallai hyn fod ar ffurf ysgogiadau megis cynllun gweithredu DC ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, neu gymhellion, megis atodi gofynion DC i gyllidebau a grantiau. Yn yr un modd, mae angen anogaeth a chefnogaeth ychwanegol ar awdurdodau lleol.

Mae creu ymwybyddiaeth well ac ymateb mwy effeithiol ymhlith y sector busnes yn hollbwysig. Teimlwyd y dylid amlygu manteision economaidd DC a bod, fel y dywedodd un ymgynghorai, "a*ngen i DC gael ei gyflwyno fel dewis busnes gwirioneddol. Ar hyn o bryd deil i gael ei gyflwyno mewn dull academig, fel gwyddor".*

Dywedodd pawb yr ymgynghorwyd â hwy eu bod yn awr am i'r cynulliad ganolbwyntio ar gyflawniad a chanlyniadau polisi cadarnhao. Roedd yr ymatebwyr yn dymuno i'r Cynullaid chwarae rôl gryfach drwy arwain trwy esiampl, hyrwyddo arfer gorau, dylanwadu ar gyrff eraill, ymgysylltu mewn rôl ryngenedlaethol lawnach a darparu gweledigaeth gyffredinol o DC yng Nghymru.

6.2. "Arolwg o weithgaredd datblygu cynaliadwy o fewn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru (Tachwedd 2002 - Mawrth 2003)" gan Dr Alan Netherwood

Paratowyd y papur gwaith hwn ar ran y Ganolfan ar gyfer Cysylltiadau Busnes , Ymatebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas a leolir ym Mhrifysgol Caerdydd gan Dr Alan Netherwood tra roedd ar ymlyniad o'i rôl fel Cyd-drefnydd Datblygiad Cynaliadwy gyda Chyngor Caerdydd.

Nod yr ymchwil oedd cael cipdrem ar ba mor llwyddiannus oedd y prif-ffrydio ar DC i weithgaredd awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ac i sicrhau llinell sylfaen o wybodaeth ar weithgareddau, technegau a phrosesau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hyrwyddo'r agenda DC.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

"Nad yw Awdurdodau Lleol Cymru at ei gilydd yn llwyddiannus mewn integreiddio DC i'w cynllunio strategol a busnes . Mae gan llai na hanner yr awdurdodau ymagwedd gorfforaethol tuag at brif-ffrydio datblygiad cynaliadwy i'w gwaith. Ychydig o dystiolaeth sydd o ddatblygiad cynaliadwy yn cael ystyriaeth ddifrifol o fewn Rhaglen Gwell Cymru neu Strategaethau Cymunedol. Pe gofynnid y cwestiwn syml a yw Awdurdodau Lleol Cymru yn integreiddio datblygiad cynaliadwy i'w diwylliant corfforaethol a'u prosesau gwneud penderfyniadau? – yr ateb syml fyddai nad ydynt."

Nid yw'n gweld fawr iawn o dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn herio arferion anghynaliadwy nac eu o arweiniad y tu fewn i awdurdodau lleol i ddilyn datblygu cynaliadwy. Cafwyd, serch hynny rai enghreifftiau o ddyfeisgarwch ac arfer da, megis dylunio cynaliadwy, bwyd cynaliadwy, ac o wella'r ddeialog rhwng DC a datblygu diwydiannol ac iechyd mewn sawl awdurdod lleol.

Ceir bod ymateb Awdurdodau Lleol Cymru i reolaeth amgylcheddol yn wael gydag ond ychydig yn mabwysiadu ymagweddau corfforaethol neu systemau rheolaeth amgylcheddol achrededig. Mae'r ymateb i fater hollbwysig newid hinsawdd yr un mor wael gyda rheolaeth ynni yn ddarniog a chaffael cynaliadwy yn brin.

Tadogir peth o'r bai am berfformiad gwael Awdurdodau Lleol Cymru ar y dryswch a achosir gan negeseuau anghyson gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Awdurdodau Lleol Cymru ac yn yr un modd, " *ni welir Cytundeb Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Ddatblygiad Cynaliadwy fel arf i yrru gweithredu a deialog rhwng dwy lefel llywodraeth ac mae angen llawer o waith a hyrwyddo*".

Geilw'r adroddiad ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi mwy o bwysau ar awdurdodau lleol i brif-ffrydio DC drwy fesurau megis craffu gan y Comisiwn Archwilio ar awdurdodau lleol, arweiniad strategaeth gymunedol, cytundebau polisi, Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, meithrin proffil gwleidyddol uwch ar gyfer DC ymhlith aelodau lleol ac uwch reolwyr, a darparu arian "*yn hytrach na chefnogaeth ar air yn unig"* i'r adnoddau dynol ac ariannol i greu'r newid diwylliannol angenrheidiol o fewn y cyrff unigol.

6.3. 'Byw'n Wahanol? – Asesiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cymru' gan Andrew Flynn o Ganolfan Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas Prifysgol Caerdydd ar ran WWF Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn canfod, yn ystod tymor pedair blynedd gyntaf y Cynulliad, fod cryn waith wedi digwydd ar y Cynllun DC gydag arwyddion bod y prif-ffrydio DC yn digwydd. Caiff ymrwymiad y gwleidyddion hŷn a'r gweision sifil ei ganmol ac adlewyrchir yr agwedd gadarnhaol hon mewn rhai sefydliadau eraill. Y mae serch hynny ymdeimlad o rwystredigaeth nad yw'r Cynulliad wedi cyflwyno yn ddigonol nac yn ddigon cyflym ar rai o'i addewidion ac mae angen gwneud mwy i brif-ffrydio DC ar draws pob un o swyddogaethau'r Cynulliad ar DC ond dylid ei drin â gofal gan ei bod "*yn ddogfen 'wleidyddol' yn hytrach na dogfen hunan-feirniadol yn awyddus bob amser i ddangos cyflawniadau yn hytrach nag heriau."*

O fewn y Cynulliad, mae'r farn a fu'r Cynllun yn llwyddiant yn amrywio. Mae un cyfwelai yn haeru bod "diddordeb byw strategol ar y lefel uchaf yn agenda'r Cynulliad" *tra bo un arall yn credu "bod effaith Cynllun DC wedi bod yn fethiant llwyr. Mae'n cyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol a dyna'i gyd".* Gwelwyd bod Sefydliadau An-llywodraethol at ei gilydd yn gadarnhaol am gyflawniadau DC y Cynulliad ond mynegodd rhai y pryder bod rhannau eraill o'r DG bellach yn tyfu i fod yn fwy blaengar na Chymru yn eu hymdrech i roi arferion mwy cynaliadwy ar waith. Pryder sylweddol arall, nad yw'n syndod yw haeriad yr adroddiad bod y gymuned fusnes yn ystyried agenda DC y Cynulliad fel rhywbeth sydd yn amherthnasol i raddau pell.

Gwelir diffyg ymroddiad awdurdodau lleol i DC ac amharodrwydd rhai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i'w gofleidio yn eu gwaith fel rhwystr mawr, yn arbennig gan fod gan y cyrff hyn rôl mor allweddol mewn cyflawni. Er bod Deddf Llywodraeth Cymru yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i gynnal a hyrwyddo llywodraeth leol, nid oedd gofyniad cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol i ddangos i'r Cynulliad eu bod yn prif-ffrydio DC. Seiliwyd ymagwedd y Cynulliad yn ei dymor cyntaf ar "*y gred y dylai llywodraeth leol allu penderfynu ar ei flaenoriaethau ei hun".* Dengys yr adroddiad na chafodd DC fawr o effaith ar y lefel uwch o fewn awdurdodau lleol a bod negeseuau anghyson ar DC mewn meysydd polisi gwahanol oddi wrth y Cynulliad heb fod o gymorth.

Hefyd dylai mwy fod wedi'i wneud i brif-ffrydio DC ym mholisïau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Yn y Llythyrau Cylch Gwaith a anfonir yn flynyddol gan y Cynulliad i'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn gosod y targedau a'r cyflawniadau a ddisgwylir ar gyfer y flwyddyn, cynhwysir DC mewn pump yn unig o'r deuddeg Llythyr gyda dim ond sylw byr iddo yn y gweddill.

Ar faterion eraill, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod polisi caffael y Cynulliad, "Ennill ein Busnes" wedi bod yn aneffeithiol; Methodd yr Arf Integreiddio wneud argraff ar y lefelau uwch; a bu Llywodraeth y Cynulliad yn araf i ddefnyddio dangosyddion i yrru polisïau mewn meysydd allweddol.

Yn gyffredinol asesa'r adroddiad nad yw'r *"cynllun Datblygu Cynaliadwy, 'Dysgu Byw'n Wahanol', a'i Gynllun Gweithredu cysylltiedig yn darparu agenda effeithiol ar gyfer gweithredu*

ar gyfer y Cynulliad a'i bartneriaid. Mae angen arweiniad i symud o bolisïau i gyflawniad, o rethreg i weithredu".

Daw'r adroddiad i'r casgliad y dylai arian i awdurdodau lleol fod yn amodol ar eu bod yn gwella polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru mewn modd tebyg i osod cyllideb yn Llywodraeth y DG a Gweithrediaeth yr Alban. Yn y ddau achos hwn, mae adrannau yn gorfod gwneud cynigion am arian yn erbyn amcanion llywodraeth i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, er nad oedd ganddynt gylch gwaith byd-flaengar i hyrwyddo DC! Mae hefyd yn argymell y dylid diwygio rhai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn sylweddol, megis Awdurdod Datblygu Cymru, sydd â record wael o fynd i'r afael â materion amgylcheddol ac y mae eu hymwneud â chynaliadwyedd wedi bod yn ddarniog.

6.4. 'Pa mor effeithiol y gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy?' Adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydymffurfio ag Adran 121 (7) Deddf Llywodraeth Cynulliad Cymru 1998 (Hydref 2003) gan CAG Consultants

Holir tri chwestiwn hollbwysig gan yr adroddiad hwn a gomisiynwyd gan y Cynulliad. . A wnaeth y Cynulliad:

1. Brif-ffrydio datblygu cynaliadwy drwy'r corff
2. Integreiddio materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
3. Fynd i'r afael â phwysau cynaliadwyedd allweddol a materion hollbwysig.

Mae'n cydnabod mai ychydig, os o gwbl, o'r cyrff sector cyhoeddus yn y DG sydd wedi dilyn arfer yn systematig wrth hyrwyddo DC a haera, bod y Cynulliad yn cael ei farnu wrth safon uchel iawn.

Yn gyffredinol cred fod y Cynulliad wedi gweithio'n galed i brif-ffrydio DC i'w bolisïau a'i fod wedi cyrraedd safon nas gwelir mewn mannau eraill yn fynych. Cafwyd lefel uchel o ymrwymiad gweinidogol a dealltwriaeth soffistigedig o DC ymhlith ei swyddogion. Cododd y Cynllun DC broffil DC ledled Cymru ac mae wedi cymell cyrff eraill i roi ystyriaeth fwy difrifol i'r mater. Mae'r adroddiad yn dadlau fod y Cynulliad, fel sefydliad ifanc, wedi dechrau'n dda, ac er nad ydyw yn gallu cyflwyno prif ddeddfwriaeth, mae'n gallu hyrwyddo DC drwy ddulliau eraill.

Er gwaethaf y clod hwn, mae'r adroddiad yn cydnabod bod gan Gynllun DC a Chynllun Gweithredu'r Cynulliad eu diffygion a noda feysydd lle gellir eu gwella.

Nodir y rhain fel a ganlyn:

- Gwasgerir ymdrechion yn hytrach na'u canolbwyntio ar bwysau cynaliadwyedd allweddol a materion hollbwysig sy'n wynebu Cymru. Nid yw materion tyngedfennol megis y tyndra rhwng datblygu diwydiannol a gwarchod yr amgylchedd a hwnnw rhwng y Polisi Amaeth Cyffredin ac egwyddorion cynaliadwyedd yn cael eu dynodi na'u hwynebu yn ddigonol.
- Nid yw'n glir a yw'r newidiadau polisi a gyflwynwyd yn mynd i olygu cael digon o newid i weddnewid tueddiadau anghynaliadwy. Byddai'r feirniadaeth hon yn sicr yn gymwys i feysydd megis trafnidiaeth, polisi ynni a newid hinsawdd.
- Nid yw DC wedi'i cael ei drosglwyddo'n systematig o bolisïau i arfer y Cynulliad ac arfer cyrff eraill.
- Mae angen rhoi polisïau'r Cynulliad ar gyfer arwain drwy esiampl ar waith yn llawnach.
- Ychydig o dystiolaeth sydd bod newid yn digwydd ar lawr gwlad.

Yn ychwanegol, noda'r adroddiad bod rhanddeiliaid, staff ac aelodau yn cytuno ei bod yn bryd:

- Gwireddu DC – bod yn glir ynglŷn â'r hyn a olyga i Gymru ac i'r Cynulliad
- Symud o bolisïau i gyflawniad – mae angen i'r Cynulliad yn y pedair blynedd nesaf allu dangos cyflawniadau gwirioneddol ar lawr gwlad.

Ymddengys bod y ddau bwynt olaf hyn yn crynhoi'r prif bryderon a godwyd ym mhob un o'r pedwar adroddiad.

7. Swyddi a'r amgylchedd

Un o'r heriau mwyaf y bydd yn rhaid eu hwynebu os ydym am symud "o bolisi i gyflwyniad" fydd pontio'r bwlch y tybir ei fod yn bodoli rhwng perfformiad economaidd cadarn ac ansawdd amgylcheddol uchel yn hytrach na phegynnu un yn erbyn y llall neu ddewis rhwng y ddau. Caiff hyn ei bortreadu'n aml fel dewis rhwng swyddi a'r amgylchedd ac mae'r mater hwn, yn anad unrhyw un arall, yn pwysleisio'r tensiynau rhwng amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hwn yn fêl ar fysedd y cyfryngau gan ei fod yn cynnig polareiddiad barn syml a bydd yn amlwg yn yr astudiaethau achos gaiff eu hystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ond dadl gaeedig yw hon gan y gellir creu nifer sylweddol o swyddi, a chyfoeth drwy edrych ar ôl, yn hytrach na cham-drin, yr amgylchedd naturiol. Gall torri llygredd, lleihau gwastraff, cadw ynni a gwarchod yr amgylchedd mewn ffyrdd eraill wella effeithlonrwydd, torri costau ar gyfer cartrefi a chwmnïau a gwella agwedd gystadleuol busnes tra, ar yr un pryd, greu swyddi. Mae marchnad fawr sy'n tyfu'n gyflym mewn nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol ac mewn datblygu technolegau glân. Mae gweithredu i safonau amgylcheddol uwch hefyd yn lleihau traul ariannol a iechyd sylweddol sy'n ganlyniad llygredd a mathau eraill o ddifrod amgylcheddol (4).

Yn gynharach eleni cynhyrchodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru adroddiad ar "Yr Economi Werdd" yng Nghymru. Daeth hwn i'r casgliad fod:

"Gwaith sy'n gysylltiedig â rheolaeth, defnydd a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol yng Nghymru yn creu 117,000 o swyddi llawn amser. Mae swyddi eraill sy'n cael eu creu o ganlyniad i'r rhain yn mynd â'r nifer o swyddi yng Nghymru sy'n dibynnu ar yr amgylchedd i 169,000 – sy'n cyfateb i 1 o bob 6 swydd yng Nghymru."

Amcangyfrifir bod manteision economaidd y gweithgaredd hwn yn cynhyrchu allbwn o nwyddau a gwasanaethau gwerth £8.8 biliwn i Gymru bob blwyddyn, sy'n cyfateb i 9 y cant o GMC Cymru.

Enghreifftiau o hyn yw:

- Amcangyfrifir fod cerddwyr ar Lwybr Arfordir Penfro yn cynhyrchu £14.1 miliwn y flwyddyn, sy'n cynnal 567 o swyddi (5). Mae hyn yn debyg i nifer y swyddi a addawyd gan y cynnig Parc Hamdden Bluestone dadleuol.
- Dangosodd arolwg ym 1998 o effeithiau economaidd ymwelwyr i dri safle Cadwraeth Natur Cenedlaethol – CNC Dyfi ger Aberystwyth, CNC Cors Caron ger Tregaron a CNC Coedydd Aber ger Bangor – eu bod wedi gwario £7.4 miliwn bob blwyddyn ac wedi cynnal oddeutu 400 o swyddi (6).

- Yn nhair blynedd gyntaf cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, gwnaeth daliadau gwerth £16.1 miliwn i 1220 o ffermwyr.

Gellir gweld manteision tebyg mewn ffermio organig. Daeth astudiaeth (7), er enghraifft, gan Cynghrair SAFE (Amaethyddiaeth, Bwyd ac Amgylchedd Cynaliadwy) i'r canlyniad bod ffermydd organig angen gofynion llafur oedd yn ddeg y cant yn uwch. Mae yna hefyd alw cynyddol am gynnyrch organig.

Cadwraeth ynni yn ein cartrefi a'n gweithleoedd yw un o'r senarios ennill-ennill mwyaf cyffredin sy'n rhoi manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dyfynnodd un astudiaeth, a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (8) ym mis Medi 2000, amcangyfrifiad gan y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol fod 5,000 o swyddi ychwanegol wedi eu creu bob blwyddyn gan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Hefyd, mae'r rhaglen hon wedi torri defnydd o danwydd a'r llygredd cysylltiedig, gostwng biliau gwresogi a thlodi ynni, a gwella iechyd a lleihau hypothermia.

Mae lleihau gwastraff a mesurau ailgylchu hefyd yn senarios ennill-ennill a gydnabyddir. Yn ôl Astudiaeth Waste Watch 1999, 'Jobs in Wales', roedd 17,000 yn bodoli eisoes mewn ailgylchu gwastraff o gartrefi yn y DG ond gallai hyn gynyddu gyda 25,000 o swyddi os byddai'r gyfradd ailgylchu yn codi i 25 y cant. Datganodd Sue Essex AC, tra'n Weinidog dros yr Amgylchedd y Cynulliad, y gallai gwastraff ac ailgylchu greu 6,000 o swyddi ychwanegol mewn prosesau rheoli adnoddau (casglu, didoli ac ailbrosesu) yng Nghymru.

Mae systemau ynni adnewyddadwy, megis gwynt, haul a phŵer dŵr, hefyd yn perfformio'n dda o ran hyn. Mae astudiaeth Cyfeillion y Ddaear, 'Working future: jobs and the environment', yn dyfynnu ymchwil sy'n dangos fod adnewyddion yn perfformio'n well na thanwydd ffosiledig a phŵer niwclear o ran swyddi a grëir am bob uned o drydan a gynhyrchir. Mae adroddiad gan Undeb Cyffredinol y Gweithwyr yn Nenmarc (9) yn rhoi'r enghraifft o dros 10,000 o swyddi'n cael eu creu gan y diwydiant gwynt yn yr Almaen yn y 1990au. Mae'r un adroddiad yn datgan:

"mae diwydiannau-eco, gan gynnwys adnewyddion, ailgylchu a chadwraeth natur ac eco-adnewyddu mewn ardaloedd trefol eisoes yn cyflogi 3.5 miliwn o bobl yn yr UE".

Yn Navarre, rhanbarth o Sbaen sy'n hanner maint Cymru, cyflogir 2,000 o bobl mewn cynhyrchu offer ynni adnewyddadwy. Mae un o'r cwmnïau sy'n rhan o hyn, EHN, yn bwriadu agor cangen yng Nghasnewydd, Gwent.

Mae cludiant yn sector mwy dadleuol o'r drafodaeth hon. Er y dywedir yn aml bod adeiladu ffyrdd yn rhywbeth hanfodol er mwyn gwella cyfleoedd gwaith, dengys adroddiad Cyfeillion y Ddaear, 'Less Traffic: More Jobs', y gallai polisïau i hyrwyddo cludiant cyhoeddus, seiclo a cherdded greu mwy o swyddi. Byddai'r mesurau hyn hefyd yn gymorth i fynd i'r afael â'r problemau amgylcheddol a iechyd a achosir gan ddefnydd o'r car a lorïau. Un enghraifft yw'r Manchester Light Railway System sydd, yn ôl pob sôn, wedi creu 1,600 o swyddi adeiladu, 280 o swyddi gweithredu a chynnal a chadw tra'n lleihau'r nifer blynyddol o deithiau car gan 2.5 miliwn.

Yn ogystal â rhoi manylion ar fanteision creu swyddi arfer amgylcheddol da mewn sectorau penodol, mae amryw adroddiadau yn rhoi darlun mwy cyffredinol o'r manteision hyn. Er enghraifft, mae Sefydliad Worldwatch wedi amcangyfrif bod 14 miliwn o swyddi wedi'u creu yn fyd-eang o ganlyniad i dynhau rheolau amgylcheddol (11) Mae adroddiad (12) gan grŵp o economegwyr blaenllaw sy'n ymchwilio i pam mae twf economaidd yn y taleithiau gogledd orllewinol yn yr Unol Daleithiau ddwywaith neu deirgwaith y gyfradd genedlaethol wedi dod i'r

casgliad fod hyn wedi digwydd '*yn bennaf oherwydd bod ffactorau ansawdd bywyd ac ansawdd amgylcheddol yn arbennig o bwysig".* Mae'r Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) sy'n cynrychioli buddiannau y gwledydd diwydiannol blaenaf, yn ei adroddiad, 'Integreiddio'r Amgylchedd a'r Economi' (1996), yn gwrthod y syniad y gall polisïau amgylcheddol fod yn ddinistrwyr swyddi. Mae'n datgan:

"Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn cefnogi'r ddadl bod polisïau amgylcheddol yng ngwledydd y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn effeithio'n negyddol ar gyfanswm y swyddi. I'r gwrthwyneb mae astudiaethau sydd ar gael yn awgrymu ei fod mewn gwirionedd yn gadarnhaol".

Ac, yn nes adref, mae'r 'Datganiad Caerdydd ar yr Amgylchedd a Chyflogaeth (1998) a lofnodwyd gan Gydffederasiwn Undebau Llafur Ewrop a Biwro Amgylcheddol Ewrop, yn cydnabod y berthynas gadarnhaol rhwng cyflogaeth a'r amgylchedd ac yn galw am weithredu pellach, megis diwygio'r dreth ecolegol, i'w ddatblygu.

Mae mater yr orimulsion yn Sir Benfro yn enghraifft glasurol o sut y gall cyflogaeth ddioddef pan fydd methiant i roi ystyriaeth ddyladwy i faterion amgylcheddol. Pe bai'r cwmni y tu cefn i'r cynnig wedi cytuno i osod rheoliadau llygredd digonol ar y dechrau, byddai'r prosiect bron yn sicr wedi digwydd. Gan nad oeddent yn barod i wneud hynny, diflannodd disgwyliadau nifer sylweddol o bobl am swyddi mewn ardal o ddiweithdra uchel. Mae cynnig Parc Hamdden y Bluestone yn Sir Benfro, a achosodd ddadl fawr oherwydd ei effaith ar Barc Cenedlaethol mewn perygl o ddioddef yr un dynged. Pe bai'r datblygwr wedi cadw allan o'r Parc Cenedlaethol byddai'r prosiect wedi cael caniatâd i fynd rhagddo ers amser.

Mae'r enghreifftiau uchod yn cynnig cipdrem ar y swm sylweddol o dystiolaeth sy'n bodoli i ddangos y berthynas gadarnhaol rhwng creu swyddi ac ansawdd amgylcheddol. Maent yn cynorthwyo i "*wneud DC yn fyw"* ac mae'n arwydd o gynnydd ar hyd y llwybr i ddyfodol mwy cynaliadwy. Fodd bynnag mae heriau sylweddol yn parhau.

8. Cynllunio

Mae'r system cynllunio yn rheoleiddio datblygiad a defnydd tir, yn y dybiaeth, ei fod er lles y cyhoedd. Yn hynny o beth, mae'n cynrychioli cylch gwaith eithriadol bwysig mewn llywodraeth leol ac mae'n dylanwadu'n sylweddol ar nodweddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal.

Dywed Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn y rhagymadrodd i'r llawlyfr, 'Cynllunio; Cyflawni ar gyfer Cymru', '*mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy wrth wraidd y system gynllunio".* Mae braidd yn anffodus darllen, yn y ddogfen hon, glod i'r system gynllunio am fod yn "*ddylanwadol mewn creu cynefinoedd a gwarchodfeydd natur megis Gwarchodfa Gwlyptiroedd Gwastadeddau Gwent, i'r de o Gasnewydd."* Ni soniwyd y bu'n rhaid creu'r cynefin hwn i geisio gwneud iawn am y weithred o fandaliaeth a noddwyd gan y wladwriaeth a ddinistriodd Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Bae Caerdydd y safle bywyd gwyllt mwyaf pwysig ym mhrifddinas Cymru, i greu llyn yuppie y tu ôl i forglawdd enfawr.

Datblygir y thema cynaliadwyedd yn ymgynghoriad drafft Cynllun Gofodol Cymru 'Pobl Lleoedd, Dyfodol' – a gyflwynir fel *ein gweledigaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy Cymru".* Ac, yn ôl y 'Cytundeb ar Egwyddorion Cynllunio rhwng Llywodraeth Cynulliad

Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru', "*mae cynllunio yn gynnwys allweddol mewn cyflwyno datblygiad cynaliadwy yng Nghymru".*

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 bwerau deddfwriaeth cynllunio eilaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i seilio ar brif ddeddfwriaeth a ddarparwyd gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990, a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Newidiwyd pob un gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991.

Darparwyd arweiniad cynllunio yng Nghymru gan Polisi Cynllunio Cymru (2002), a ategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyrau sy'n darparu cyngor gweithdrefnol. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru y dylai awdurdodau cynllunio lleol roi ystyriaeth iddo wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol ac yn eu penderfyniadau cynllunio. Nid oes ganddynt awdurdod statudol ffurfiol ond derbyniodd y llysoedd y dylid talu sylw dyladwy iddynt fel polisi gweinidogol presennol. Mae'n rhaid rhoi rhesymau clir os cânt eu hanwybyddu.

Dynodwyd y 25 Awdurdod Lleol yng Nghymru – y 22 Cyngor Sir a'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol – fel awdurdodau cynllunio lleol a byddant yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio. Bob blwyddyn derbyniant tua 30,000 o geisiadau i'w penderfynu gan wleidyddion lleol, a gynghorir gan swyddogion cynllunio proffesiynol, gyda tua 600 o'r penderfyniadau hyn yn dod yn destun apêl gan geiswyr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddynt. Gwneir yr apêl i'r Gweinidog Dros yr Amgylchedd, Cynllunio a'r Cefn Gwlad ac fe'i harolygir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio'r Cynulliad, sy'n cynnwys pedwar Aelod Cynulliad (fel arfer o blith yr holl bleidiau gwleidyddol), yn gwneud tua 20 penderfyniad y flwyddyn ar geisiadau cynllunio a "elwir i fewn", ac ar apeliadau a ddaw yn ôl oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio.

Fel arfer bydd cais yn gyffredinol yn "cael ei alw'i fewn" dim ond pan fo'n codi materion cynllunio sydd o bwysigrwydd mwy na lleol, megis ei fod yn gwrthdaro gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol, yn codi materion cynllunio diddorol , yn meddu ar effaith ehangach y tu hwnt i'w hardal, yn codi materion o ddiogelwch cenedlaethol neu'n effeithio ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, cadwraeth natur, tirwedd neu hanesyddol. Derbynnir apeliadau yn ôl oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio ar sail debyg, eu bod yn ddadleuol, eu maint neu eu bod yn gwrthdaro.

Dadleuodd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ei adroddiad 'Cyfiawnder Cynllunio ar gyfer Cymru', y dylid ymestyn yr hawl i apelio, mewn achosion dadleuol ac arwyddocaol yn amgylcheddol, i 'drydydd parti', hynny yw, unrhyw unigolyn, busnes neu grŵp cymunedol sy'n gwrthwynebu'r cais. Dywed yr adroddiad:

"*Er bod atebolrwydd democrataidd yn parhau yn un o egwyddorion pwysicaf y broses cynllunio, dangosodd profiad bod angen amddiffynfeydd ychwanegol ar y gymuned i warchod ei buddiannau cyfiawn. Mae amddiffynfeydd ychwanegol yn arbennig o bwysig yn yr achosion hynny ble mae gan awdurdodau lleol wrthdrawiad buddiant ac yn yr achosion hynny ble mae effeithiau amgylcheddol mawr eu maint a chymhleth yn herio arbenigedd swyddogion cynllunio."*

Rhagwelodd y brif ddeddfwriaeth gynllunio system ddau ris o lywodraeth leol o Gynghorau Sir a Dosbarth a ddarparai wiriad allanol pan fyddai awdurdod lleol yn hyrwyddo ei gais cynllunio ei hun ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, ers ad-drefnu llywodraeth leol codwyd pryder gan

achosion dadleuol ble mae awdurdodau lleol wedi rhoi caniatâd cynllunio naill ai iddynt eu hunain neu ar dir lle mae ganddynt ddiddordeb ariannol ynddo.

Mae'r angen cyson ar awdurdodau lleol i godi refeniw er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn rhoi hwb iddynt hyrwyddo datblygu ar eu daliadau tir. Yn ogystal ag incwm o werthiant tir, mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a ddaeth i gael ei hadnabod fel "Cytundebau Adran 106 – Mantais Cynllunio") hefyd yn caniatáu iddynt dderbyn cyfraniad ariannol tuag at ddarpariadau isadeiledd sy'n codi o'r datblygiad. Mae Awdurdodau Unedol felly, yn gallu derbyn refeniw o:

- **Incwm Cyfalaf** – o werthiant asedau Awdurdod Unedol ar gyfer datblygu (incwm uniongyrchol) ac o gyfraniadau Adran 106 'Mantais Cynllunio 'derbyniadau anuniongyrchol'
- **Incwm Refeniw** – o Dreth y Cyngor tai preswyl ac o gyfran o'r Trethi An-nomestig.

Amcangyfrifodd Mike Jacob, y ei adroddiad i'r Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol ar 'Llywodraethu Corfforaethol Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyda golwg ar gynllunio, er enghraifft, bod incwm cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o'i ddatblygiad tai 1200 uned yn South Sebastopol ger Pont-y-pŵl yn mynd i fod yn £7miliwn tra byddai'r incwm refeniw sy'n ailadrodd yn gyfanswm o £1.2miliwn y flwyddyn.

Mae hyn yn rhoi syniad o'r refeniw sylweddol a all ddeillio i Awdurdodau Lleol o ddatblygu. Mae goblygiadau ariannol y proses hwn yn codi amheuon bod canlyniadau ceisiadau cynllunio yn dibynnu ar gytundebau mantais cynllunio a'i bod yn bosibl 'prynu' caniatâd cynllunio.
Mae achosion dadleuol tebyg wedi ymwneud â'r Cynulliad neu'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Dywed adroddiad Cyfeillion y Ddaear Cymru, 'Cyfiawnder Cynllunio ar gyfer Cymru' am hyn :

"*Mae'n hollol briodol bod y Cynulliad, naill ai yn uniongyrchol neu drwy Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, yn gwneud pethau sy'n rhaid cael caniatâd cynllunio iddynt. Fodd bynnag mae'n anorfod y bydd adegau pan fydd rôl y Cynulliad fel asiant ar gyfer newid yng Nghymru yn gwrthdaro, neu o leiaf yn ymddangos ei bod yn gwrthdaro, â'i rôl fel pennaf awdurdod cynllunio y genedl. Mae'r penderfyniad i alw cais i fewn ar hyn o bryd yn nwylo'r Gweinidog yn unig. O gofio rôl y Cynulliad i annog datblygu, mae'n rhaid y bydd amheuon yn parhau dros annibyniaeth Gweinidogion y Cynulliad wrth iddynt benderfynu a wnânt alw ceisiadau cynllunio i fewn yn y lle cyntaf."*

Noda'r adroddiad enghraifft cais cynllunio Legend Court 1998 a gyflwynwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd i godi parc thema enfawr ar dir amaethyddol ger traffordd yr M4. Gwrthwynebodd y trigolion lleol ac amgylcheddwyr ar y sail y byddai'n cynyddu trafnidiaeth ffyrdd yn sylweddol ac yn arwain at golli bywyd gwyllt ac amwynder yn yr ardal. Canolbwyntiodd llawer o'r ddadl ar hyfywedd cynlluniau'r cwmni ar gyfer y parc thema, gyda Chyngor Casnewydd yn troi at Fwrdd Croeso Cymru am gyngor. Sicrhaodd y Bwrdd yr awdurdod lleol ei fod wedi archwilio cynllun busnes y cwmni a'i ganfod i fod yn un cadarn. Yn dilyn archwiliad manylach canfu Cyfeillion y Ddaear bod y Bwrdd Croeso wedi chware rhan allweddol mewn cynghori'r cwmni sut y dylai ysgrifennu'r cynllun. Yn wir yr oedd y Bwrdd Croeso yn gweithredu gyda'r bwriad pendant o ddenu parc thema mawr i Gymru ar sail llythyr cyfarwyddyd a oedd wedi ei dderbyn oddi wrth John Redwood, Ysgrifennydd Cymru.

Mynegwyd pryder hefyd am y berthynas agos sy'n bodoli rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dywed Mike Jacob, yn ei

adroddiad i'r Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol fod,"*ymagwedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lywodraeth leol yn un o weithio mewn partneriaeth. Golyga hyn fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gyndyn i'w weld ei hun fel gris well o lywodraeth. Mae hyn yn gwrthdaro gyda disgwyliadau cyhoeddus yng Nghymru i weld Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel corff y gallant apelio ato pan fyddant mewn gwrthdaro gyda'i awdurdod unedol".*

Mae'n mynd rhagddo i haeru:

"*Mae rhai cewri gwleidyddol mewn llywodraeth leol wedi dod i'r amlwg yn Ne Cymru, yn arbennig yn eu plith mae: Russell Goodway, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd; Syr Harry Jones, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd; a Brian Smith, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen . Dominyddir Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan yr arweinwyr hynod hyn sydd i bob pwrpas yn rheoli Cynulliad Cenedlaethol Cymru".*

Mynegwyd y pryder hwn gan gynrychiolydd mewn cyfarfod deialog rhanddeiliaid y Cyngor Amgylcheddol, a gynhaliwyd i ystyried gwaith adferol ar y cyn-safle mewnlenwi a gafodd ei ddewis yn ddadleuol fel safle ar gyfer yr Ysgol Syr John Bright newydd yn Llandudno, a wnaeth y sylw, "*pwy sy'n rhedeg Cymru - Y Cynulliad neu arweinwyr Llafur y cynghorau?"*

Mae adroddiad Laffin, Taylor a Thomas, 'Partneriaeth Newydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol', er nad yw'n haeru bod y radd yma o reolaeth yn bodoli, mae'n cydnabod perthynas arbennig o agos rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol. Gwelir yn sicr bod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lawer mwy o ddylanwad na'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Llundain ac mae'r awdurdodau lleol, ar ôl datganoli, wedi cadw eu dylanwad blaenorol . Mae hyn mae'n debyg wedi digwydd fel canlyniad i fargeinio gwleidyddol ar adeg datganoli.

"*Mae'r rheswm pam y bu i lywodraeth leol barhau fel pe bae heb ei gyffwrdd gan ddatganoli",* yn ôl yr adroddiad, "*yn llai i wneud ag unrhyw lasbrint o berthynas y canol a'r lleol ar ôl datganoli nac ag unrhyw angen uniongyrchol neu angenrheidiol ar adeg datganoli i ennill cefnogaeth llywodraeth leol i ddatganoli, yn arbennig gefnogaeth llywodraeth leol Lafur."*

Mae'r rhain i gyd yn ddylanwadau sy'n milwrio yn erbyn system cynllunio a ddylai fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw, i ennyn hyder y cyhoedd a byd busnes, ac i fod â datblygu cynaliadwy wrth ei wraidd.

Mae rhai o'r astudiaethau achos sy'n dilyn yn amlygu'r pwynt hwn

9. Astudiaethau Achos

9.1. Ysgol John Bright, Llandudno

Rhoddwyd y caniatâd i fynd rhagddi i godi Ysgol John Bright gan Peter Law, Ysgrifennydd Llywodraeth Leol y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2001, fel rhan o gynllun PFI (Menter Cyllid Preifat) i godi neu ailadeiladu deg ysgol yng Nghymru. Byddai dwy o'r ysgolion arfaethedig – Ysgol John Bright yn Llandudno ac Ysgol Gynradd Durham Road yng Nghasnewydd, Gwent – yn cael eu codi ar dir a lygrwyd gan flynyddoedd o ddefnydd diwydiannol.

Roedd safle canolog presennol Ysgol John Bright i'w werthu gan y Cyngor i gwmni archfarchnad Asda, er nad oedd y Cynllun Datblygu yn caniatáu ar gyfer datblygiad manwerthu

ar y safle ac er gwaethaf y ffaith bod y safle wedi ei gyfamodi i'r Cyngor ar gyfer "dibenion addysgol". Roedd y safle yng Nghasnewydd i gael ei werthu ar gyfer datblygiadau tai.

Parodd y cynigion brotestiadau cryf gan rieni a gwrthwynebiadau gan arbenigwyr . Roedd y rhieni yn iawn i bryderu y gallai iechyd eu plant fod mewn perygl gan lygriad diwydiannol ar y safleoedd. Bu'r safle arfaethedig newydd yn Llandudno yn domen sbwriel, yn safle nwy ac yn waith asphalt ac roedd yn codi peryglon o gyfeiriad nifer o gemegau a allai fod yn niweidiol a gollyngiad nwy methane.

Rhybuddiodd adroddiad ym 1997 o weithdy Iechyd Plant Asiantaeth Sylweddau Tocsig a Chofrestrfa Clefydau, asiantaeth Americanaidd sy'n arolygu safleoedd gwastraff fod, "*deunydd tocsig amgylcheddol yn achos parhaus a chynyddol o afiechydon ataliadwy mewn plant...gwaith pwysicaf plant yw mynychu ysgol a gall ysgolion greu peryglon tocsig drwy eu lleoliad".* Mae'n dadlau y dylid cymryd ymagwedd rhagocheliadwy.

Adleisiwyd y pryderon hyn gan Dr Richard Roberts ymgynghorydd iechyd cyhoeddus Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, a alwodd am fwy o ymchwil i risgiau iechyd posibl cynllun Llandudno. Roedd yn arbennig o bryderus bod y lefelau derbyniol o'r cemegyn tocsig, benzene, wedi ei osod ar gyfraddau sy'n addas ar gyfer oedolion yn hytrach na phlant. Rhannwyd ei bryderon gan Dr Amanda Meikle, sy'n feicrofiolegydd, a fynegodd syndod mawr nad oedd y Cynulliad wedi galw'r cais i mewn ar sail iechyd (13).

Ymunodd Comisiynydd Plant Cymru, Peter Clarke, â hwy a dywedodd ar ôl archwilio manylion yr achos,

"Mae prinder nodedig o ddata ymchwil ar effeithiau posibl tymor hir gadael plant yn agored i effaith lefel isel. Yr wyf yn sicr nad ydym yn gwybod a oes perygl i iechyd ein plant sy'n codi o benderfyniad i'w gosod mewn ysgolion ar y safleoedd mewnlenwi perthnasol. Tra bod hyd yn oed bosibilrwydd y gallai risgiau o'r fath fodoli, nid wyf yn credu y dylem symud ymlaen yn y ffordd hon" (14)

Mae hyd yn oed ddatganiad gofalus Dr Ruth Hall, Prif Swyddog Iechyd Cymru yn son am risg posibl y safle ac am *"sawl ansicrwydd ynghylch pa mor eang yw'r risg hwn gyda chyfyngioadau llym ar y dystiolaeth epistemegol am effaith bod yn agored am gyfnod hir i wastraff a'i is gynhyrchion, yn enwedig ar yr ifanc a'r rhai all fod yn fwyaf clwyfadwy".*

Mae'r ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â safleoedd mewnlenwi wedi cynyddu'n sylweddol yny blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r ddadl enfawr ynghylch safle gwastraff Nant-y-Gwyddon yng Nghwm Rhondda. Er gwaethaf hyn, ymddangosai'r Cynulliad ac Chymdeithas Llywodraeth leol Cymru yn maharod i wrando ar y pryderon hyn.

Gwrthodwyd safbwynt y Comisiynydd Plant ac eraill a fynegodd bryder ar sail feddygol, gan y Cynghorydd Goronwy Parry ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
"*Mae Awdurdodau Lleol"* meddai "*yn buddsoddi mewn cyngor profi a gwyddonol priodol i bwyso a mesur y risgiau a byddai'n drueni pe bai ymyriad y Comisiynydd Plant yn deillio ar godi pryder i'r fan ble mae pryder di-sail yn gorbwyso dadansoddi cywir"* (15). Mynegodd Julian Rosser Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru fod yr ymateb hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn "*gwbl anghredadwy"*. Eto, fel y bu i ddigwyddiadau diweddarach ddangos dewisodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrando ar Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymru yn y mater hwn, oedd yn un o bryder mawr i rieni a'u plant, yn hytrach nag ar y Comisiynydd Plant yr oedd y Cynulliad wedi ei benodi yn ddiweddar gyda balchder.

Ymddangosai fod gweledigaeth Cynllun DC Cymru o Gymru fel gwlad "*sy'n gwerthfawrogi ei phlant"* wedi'i hanghofio.

Er gwaethaf y rhain a phryderon eraill ar faterion megis mynediad i wybodaeth, cyllid a chywiro tir, rhoddodd cynghorwyr Conwy ganiatâd cynllunio i'w hunain ar gyfer yr ysgol newydd ym mis Rhagfyr 2001. Er i'r protestiadau barhau, yn cynnwys gwrthwynebiad yr Aelod Cynulliad lleol, a chynhyrchwyd tystiolaeth bellach i ddadlennu diffygion yn yr astudiaethau cywiro tir a'r cynigion., gwrthododd y Cynulliad geisiadau i'r cynnig gael ei alw i mewn gan gymeradwyo'r cynlluniau bron flwyddyn yn ddiweddarach. Cwynodd Gareth Jones, yr Aelod Cynulliad lleol bod y farn a ofynnodd amdano gan y Dr Ruth Hall, y Prif Swyddog Iechyd, ym mis Ionawr 2002 heb ei rhyddhau iddo hyd Tachwedd 1af, y diwrnod ar ôl i'r Cynulliad gymeradwyo'r cynllun. Cymeradwywyd y cynigion i symud ysgol gynradd Durham Road yng Nghasnewydd i safle cyn ddomen wastraff yn Gleeblands gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2003.

Drwy gefnogi'r prosiectau hyn methodd y Cynulliad a chymhwyso'r egwyddor ragocheliadol
Un o brofion allweddol ei ymrwymiad i DC; wedi gwrando ar Gymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru yn hytrach nag ar "*lais y bobl leol"* (Adran 3.1 y Cynllun DC) a'r Comisiynydd Plant; ac mae wedi methu dangos bod "*pobl ifanc yn cael eu trin fel aelodau o'n cymuned a werthfawrogir yn ein cymuned"* (Gwell Cymru). Mae'r digwyddiadau a ddogfennir yn yr astudiaeth achos hon yn gwneud gwawd o'r datganiad yng nghytundeb Llywodraeth Cynuliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddatblygu cynaliadwy mai'r hyn sydd flaenaf yn ei hamcanion yw hyrwyddo a chyrraedd datblygu cynaliadwy. Byddai eraill yn dod i'r casgliad efallai mai ystyriaethau ariannol oedd flaenaf yn yr achos hwn.

9.2. 'Ffordd Newydd' Rhiw, Penrhyn Llŷn

Yn 2001, bu'n rhaid cau rhan o ffordd yr arfordir ger Rhiw ar Benrhyn Llŷn o ganlyniad i ddifrod a achoswyd gan lithriad tir. Roedd hi'n ddealladwy, bu pwysau gan y gymuned leol i adfer ffordd gyswllt a, dros flwyddyn yn ddiweddarach, gwnaeth Cyngor Sir Gwynedd gais i roi caniatâd cynllunio i'w hun i godi tua 890 metr o ffordd newydd. Byddai hyn serch hynny, yn dilyn y llwybr presennol ond yn torri trwy goedwig hynafol bwysig a gardd Sarn y Plas adeilad Rhestredig Gradd II, a fu hefyd yn gartref i R.S.Thomas.

Argymhellodd cynllunwyr Cyngor Sir Gwynedd ohiriad er mwyn cael mwy o wybodaeth ar ddichonolrwydd ailadeiladu'r ffordd bresennol. Roedd ganddynt nifer o bryderon ynglŷn â'r cais. Byddai'r llwybr arfaethedig mewn ardal a gynhwysai Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Arfordir Treftadaeth, tir diymwad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Rhestredig Plas yn Rhiw, a chynhwyswyd hwnnw ar gofrestr Coetiroedd Naturiol Hynafol Cenedlaethol a Chofrestr Genedlaethol Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol. Roedd hefyd yn agos at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a dau adeilad rhestredig, sef, Sarn y Plas a Bryn Ffowc. O ganlyniad, gwnaeth y swyddogion cynllunio hi'n eglur bod y cais yn groes i nifer o bolisïau yng Nghynllun Lleol Dwyfor a Chynllun Fframwaith Gwynedd ac arweiniad cenedlaethol. Yn hynny o beth, byddai, pe câi ei gymeradwyo gan y pwyllgor cynllunio, yn rhaid ei drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn ystyried o fewn 21 dydd a ddylai gael ei alw i fewn.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru (2002), ym mharagraff 5.3.6, fod *"Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE) o statws cyfartal o ran tirwedd a harddwch golygfeydd ac mae'n rhaid rhoi'r statws uchaf o warchodaeth i'r ddau rhag datblygiadau amhriodol. Mewn polisïau a phenderfyniadau rheoli datblygiad CDU, mae'n rhaid ymdrin a Pharciau Cenedlaethol ac AOHNE fel rhai cydradd o ran statws."*

Yn ychwanegol, mae Polisi E1 Cynllun Lleol Dwyfor yn datgan *"Yn yr AOHNE, cadwraeth y dirwedd fydd y prif ystyriaeth cynllunio. Ni chaiff cynnig a fydd yn effeithio yn annerbyniol neu'n niweidiol ar olwg a chymeriad y dirwedd hon ei gymeradwyo".* Ychwanega, ym mharagraff 8.3.2 gyfiawnhad y polisi, *"y gall safleoedd amgen gyfiawnhau eithriad".*

Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn gwneud diogelu coedwigoedd hynafol yn ofynnol. Dywed Paragraff 5.2.8, *"Mae coedwigoedd hynafol a lled-naturiol yn gynefinoedd amhosibl anadnewyddadwy o werth bioamrywiaeth uchel a ddylai gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n deillio ar ddifrod sylweddol".* Mae Polisi E17 Cynllun Lleol Dwyfor yn cytuno: *"Ni chymeradwyir cynigion sy'n golygu torri coetir hynafol a lled-naturiol, na chynigion eraill a gaiff effaith niweidiol ar gymeriad neu gadwraeth coedwigoedd o'r fath."*

Tynnodd y swyddogion cynllunio sylw at y ffaith y gallai'r ffordd newydd, a ariennir gan y Cynulliad wneud y tir rhwng y ffordd newydd a'r hen ffordd yn ansefydlog ac o bosibl dueddu at dirlithriadau yn y dyfodol. Hefyd cafwyd ar ddeall fod ymgynghorwyr a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Gwynedd wedi cydnabod ei bod yn bosibl i ailadeiladu'r ffordd bresennol drwy eu hangori i'r graig.

Codwyd y materion hyn gyda'r Cyngor Sir a'r Cynulliad cyn cyfarfod y pwyllgor cynllunio gan wrthwynebwyr y cynnig yn cynnwys Gwydion Thomas, mab R.S. Thomas, yr arlunydd M. E. Eldridge ac wyth sefydliad amgylcheddol (Coed Cadw, RSPB, Cadwraeth Pili-Pala, Cyngor Diogelu Cymru Wledig, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, Cymdeithas y Cerddwyr, Cyfeillion y Ddaear Cymru a Plantlife).

Hefyd daeth pwysigrwydd diwylliannol y safle yn fater o bwys. Mae R.S.Thomas yn cael ei gydnabod yn un o feirdd Saesneg mwyaf yr ugeinfed ganrif. Dylanwadodd bywyd gwyllt yr ardd a'r goedwig hynafol yn drwm arno. Daeth y safle yn ardal o arwyddocâd ecolegol, cadwraeth, diwylliannol a threftadol, ac eto byddai'n cael ei rannu'n ddwy gan y ffordd. Dywedodd Gwydion Thomas: *"Mae'n sicr nad oes cenedl arall yn y byd a fyddai'n dinistrio'r safleoedd hyn, gyda'u treftadaeth Gymreig sylweddol; byddai'n cael ei hystyried yn weithred o fandaliaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol".*

Fodd bynnag, pan gyfarfu'r pwyllgor cynllunio i ystyried y cais, gwnaethant anwybyddu cyngor y swyddogion cynllunio a gwrthwynebiadau'r gwrthwynebwyr. O ganlyniad, ysgrifennodd yr wyth sefydliad amgylcheddol at Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, yn mynegi eu siom a'u syndod gyda phenderfyniad y pwyllgor cynllunio i gymeradwyo y cais heb gytuno i wrando ar wybodaeth bellach ynglŷn ag ailadeiladu'r ffordd bresennol, ac yn gofyn am i'r cais gael ei alw i fewn. Dadleuasant y byddai galw i fewn yn unol a Pholisi Cynllunio Cymru (paragraff 4.2) ar y sail:

- bod y penderfyniad i ganiatáu'r datblygiad yn gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol (parthed: coetir hynafol)
- y gallai'r penderfyniad gael effaith eang y tu hwnt i'w ardal gyfagos, gan mai hwn yw yw'r achos prawf cyntaf o baragraff 5.2.8 Polisi Cynllunio Cymru (parthed: coetir hynafol)
- ei fod yn barod wedi achosi dadlau sylweddol y tu hwnt i'r ardal gyfagos oherwydd y cysylltiad gydag RS Thomas

Mewn ymateb, gwrthododd Bob Evans, oedd yn ysgrifennu ar ran Sue Essex, y cais am alw i fewn:

“Mae’r Cynulliad yn ystyried yn gyffredinol y penderfynnir orau ar gynigion datblygu yn lleol gan awdurdodau lleol sy’n adnabod eu hardal, ei hanghenion a’i agweddau sensitif. Nid yw’r Cynulliad yn ymyrryd ag awdurdodaeth awdurdodau lleol, heblaw eu bod yn angenrheidiol gwneud hynny.”

ac

“Mae’r Cynulliad o’r farn na fyddai effaith y datblygiad yn creu difrod sylweddol ac na fyddai’r cynnig felly, yn gwrthdaro a pholisïau cynllunio cenedlaethol.”

Ymddengys bod hyn yn cadarnhau’r argraff, a roddwyd yn gynharach gan Michael Jacob ac Andrew Flynn, bod y Cynulliad yn amharod i herio pwerau traddodiadol cynghorwyr sir na datblygu i fod yn ris uwch o lywodraeth. Mae hefyd yn awgrymu, os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amharod i ymyrryd i sicrhau cydymffurfiad gyda pholisïau cynllunio ac i warchod ardal o fywyd gwyllt, tirwedd a diwylliannol bwysig, pan fo dewis hyfyw amgen yn bodoli, ar ychydig gost ychwanegol, fod egwyddorion datblygu cynaliadwy sy’n sail i’r system yng Nghymru bron yn ddiystyr.

9.3. Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr

Mae’r cynnig hwn i godi academi rygbi i URC, ystad o 210 o dai, gwesty a pharc busnes wedi ei ganoli ar safle gwersyll carcharorion rhyfel o gyfnod yr Ail Ryfel Byd a chefn gwlad sy’n ei amgylchu ar ochr Merthyr Mawr i ffordd yr A48 ger Pen-y-bont ar Ogwr. Mae’r 125 erw o dir, y mae rhan ohono’n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys safle hen wersyll carcharorion rhyfel yn bennaf a gafodd ei bennu ar gyfer ymestyn parc technoleg, ac i’r de, tir amaethyddol o ansawdd da. Er y byddai bron pawb yn cefnogi academi rygbi i URC, mae’r cynnig i’w leoli yn y fan hon wedi achosi cryn ddadlau a gwrthwynebiad. Mae 5,000 o bobl (trigolion lleol yn bennaf, ond hefyd rai pobl o bob rhan o’r byd), cyrff amgylcheddol niferus, Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad, ac Aelodau Cynulliad o’r pedair plaid wleidyddol i gyd wedi gwrthwynebu’r cynllun.

Yng nghyffiniau ardal Island Farm, mae twyni tywod o statws Ewropeaidd, pentref cadwraethol, parcdir hanesyddol, ac ardal fawr o gadwraeth tirwedd. Mae’r safle ei hun yn gorwedd yng nghanol ardal “lletem werdd” fawr, y byddai ei datblygu yn cyfuno pentrefi Merthyr Mawr, Ewenni a Threlales, yn dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, ac yn colli tir amaethyddol, Graddau 2 a 3a am byth. Cynhwyswyd yr hen wersyll carcharorion rhyfel, oherwydd ei fioamrywiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel Safle Cadwraeth Natur Pwysig.

Mae un o’r prif bryderon amgylcheddol ar y safle yn ymwneud yn sylfaenol a phresenoldeb rhywogaeth y pathew, a amddiffynnir gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac mae hefyd yn Rhywogaeth Cynllun Gweithredu Blaenoriaeth Bioamrywiaeth y DG. Yn hynny o beth mae’n drosedd i ladd na tharfu, nac i ddifrodi na dinistrio safle fridio neu wâl anifail o’r fath. Mae ar ddatblygiadau newydd, a fyddai yn torri ar draws y warchodaeth a gynigir gan y ddeddfwriaeth hon, angen rhan-ddirymiad ar ffurf trwydded y gellir yn unig ei roi yng Nghymru gan y Cynulliad cyhyd a bod rhai amodau tynn yn cael eu bodloni .

Dim ond dau berson, ill dau yn dirfeddianwyr, wrthwynebodd y dynodiad drafft at gyfer yr ardal hon fel “lletem werdd” yn ystod y proses ymgynghori rhwng Gorffennaf a Medi 2000 ac roedd cynllunwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bleidiol i warchod caeau Island Farm rhag datblygiad. Yn y cyfarfod o’r Cyngor i gadarnhau’r Cynllun Datblygu Unedol drafft ar adnau ym mis Mawrth 2001, fodd bynnag, cynigiodd arweinydd y Cyngor bod y “lletem werdd”

yn cael ei dileu oherwydd bod gan Undeb Rygbi Cymru ddiddordeb mewn sefydlu academi Rygbi ar y safle. Yn ôl Grŵp Gweithredu Island Farm nid oedd y cynnig wedi ei roi ar yr agenda, nid oedd y cynllunwyr wedi eu hybysu ymlaen llaw ac nid oedd y Cynghorwyr, yn cynnwys y Cynghorwyr lleol dros yr ardal yn ymwybodol o'r cynnig, ac felly yn analluog i gyflwyno gwybodaeth i wrthsefyll y cynnig a gafodd ei dderbyn gan y mwyafrif. Ar ôl hynny, cafodd ei gadarnhau bod Undeb Rygbi Cymru hefyd wedi cael gweld safle yng Ngholeg Amaethyddol Pencoed ond iddynt ei wrthod am resymau ariannol. Heriodd Grŵp Gweithredu Island Farm y penderfyniad i symud y "lletem werdd" yn yr ymchwiliad i'r Cynllun Datblygu Unedol a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2002.

Ym mis Ionawr 2002 cafodd cais cynllunio am academi rygbi, tai, gwesty a pharc busnes ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan Undeb Rygbi Cymru a Berigull Cyf. Gwnaed hyn ar fore cyfarfod rhag-ymchwiliad Arolygydd y Cynllun Datblygu Unedol ac fe'i cyhoeddwyd i'r cyfarfod gan fargyfreithiwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Arweiniodd hyn at ymateb ffyrnig gan aelodau'r cyhoedd oedd yn y cyfarfod ac arweiniodd i'r Arolygydd atgoffa'r bobl oedd yn bresennol fod yn rhaid i'r cais cynllunio fynd rhagddo yn annibynnol ar "ymchwiliad ac adroddiad" Arolygydd y Cynllun Datblygu Unedol ac y gallai yn rhwydd gael ei benderfynu cyn i'w hargymhellion hi gael eu cyhoeddi. Ar yr un diwrnod hwnnw, nododd bod Macob y datblygwyr oedd a chytundeb i brynu'r tir oddi wrth Berigull os câi'r cais cynllunio ei gymeradwyo, wedi gofyn i'r Arolygydd ystyried yr un cynllun a phenderfynu a ddylai y dynodiad tir gael ei newid i gynnwys y cysyniad hwn. Cododd sefyllfa chwerthinllyd yn awr yn yr ymchwiliad, ble'r oedd yn rhaid i'r cynllunwyr amddiffyn dileu'r lletem werdd, ond wrthwynebu cynllun Macob, oherwydd bod y tir yn gefn gwlad agored yn y Cynllun Datblygu Unedol Drafft. Yn ei hadroddiad terfynol gwrthododd yr Arolygydd y cynllun.

Ymatebodd Peter Black, yr Aelod Cynulliad dros Dde Orllewin Cymru, i'r sefyllfa gyda datganiad i'r wasg beirniadol (Ionawr 11eg 2002) ble y cyhuddodd y ceiswyr o geisio achub y blaen ar ymchwiliad cyhoeddus y Cynllun Datblygu Unedol drwy wneud cais am ganiatâd cynllunio a gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniad cyn i'r gwrandawiad ddigwydd ac i'r Arolygydd roi ei hadroddiad. Dywedodd y byddai'r cynllun yn achosi *"effaith amgylcheddol annerbyniol, yn arwain at broblemau trafnidiaeth yn yr ardal a chyfuniad pentrefi i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr...mae'n dangos yn eithaf clir bod angen y lletem werdd ar y safle hwn"*.

Cyn i gais Undeb Rygbi Cymru/Berigull gael ei ystyried gan gynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, penderfynodd y datblygwyr newid y cynllun. Ailgyflwynwyd cais ganddynt ym mis Medi 2002, a ddangosai'r Academi ar y caeau yn hytrach nag fel yr oedd yn wreiddiol ar dir y gwersyll Carcharorion Rhyfel. Dosberthir hwnnw wedyn yn 'chwaraeon' ar waethaf y ffaith y byddai adeilad yr Academi yn fwy nag archfarchnad Tesco Pen-y-bont ar Ogwr. Lleihawyd y datblygiad tai a symudwyd o'r caeau i'r gwersyll Carcharorion Rhyfel (tir llwyd) a'r parc busnes o ran ei faint er mwyn goresgyn problemau trafnidiaeth. Golygodd hyn y byddai unrhyw beth a ddywedai'r Arolygydd yn ei hadroddiad yn annilys gan eu bod yn awr wedi newid y cysyniad safle mewnol.

Cynhyrchodd dirymiad y "lletem werdd" o'r Cynllun Datblygu Unedol 1200 o wrthwynebiadau yn ymchwiliad cyhoeddus y Cynllun Datblygu Unedol. Argymhellodd adroddiad yr arolygydd cynllunio, yn nechrau 2003 y dylai'r "lletem werdd" sefyll cyhyd, a'i bod heb ei disodli gan y cais cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd amddiffyn lletemau gwyrdd. Dywed Para 2.6.14:

"Wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio Lleiniau Glas neu letemau glas bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol yn gymwys. Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi pwys sylweddol ar unrhyw niwed a gâi datblygiad ar y Llain Las neu y lletem las."

Pan ystyriodd y pwyllgor cynllunio y cais, ym mis Rhagfyr 2002, fe'i gwrthodwyd o 15 pleidlais i 14. Erbyn hyn yr oedd Carwyn Jones, yr AC lleol wedi ymuno yn y gwrthwynebiad. Pwysleisiodd nad oedd ef yn erbyn academi rygbi, ond dywedodd, *"ni fwriadwyd y rhan hon o Ben-y-bont ar Ogwr erioed ar gyfer tai. Mae'r codi tai yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweddill y datblygiad"*. (Newyddion BBC, Rhagfyr 4ydd 2002). Haerodd Jeff Jones, arweinydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr y byddai'r mwyafrif tawel o blaid y cynllun a dywedodd Undeb Rygbi Cymru ei fod yn ffafrio'r safle oherwydd y byddai gwerthu'r tai yn ei alluogi i oresgyn anawsterau ariannol. (Newyddion BBC Rhagfyr 4ydd 2002).

Yn ôl Grŵp Gweithredu Island Farm, o fewn ychydig wythnosau i'r cais gael ei wrthod, *"mynegodd arweinydd y cyngor ei bryder bod y cais wedi ei wrthod oherwydd drwgdeimlad personol tuag ato gan rai cynghorwyr a chynigiodd ddiddymu'r pwyllgor cynllunio presennol i'w ddisodli gan holl aelodau'r Cyngor. Tra bod y proses hwn yn digwydd, ailgyflwynodd y datblygwyr y cais gan leisio'r gobaith y byddai'r pwyllgor newydd yn cymeradwyo'r cais (ar yr adeg hon, nid oedd y pwyllgor newydd wedi'i ffurfio). Yn ddiweddarach, cymeradwyodd y pwyllgor newydd y cais, gan ei ailgadarnhau eto ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd ar y Cynllun Datblygu Unedol, ar waethaf eu hargymhelliad"*.

Anogodd Grŵp Gweithredu Island Farm a gwrthwynebwyr eraill y Cynulliad i alw'r cais i fewn ond gwrthodwyd hyn gan Rhodri Morgan. Gofynnodd Grŵp Gweithredu island Farm am gopi o'r cyngor roddwyd i'r Prif Weinidog, ac wedi ei dderbyn, darganfyddodd fod galw i mewn wedi ei argymell gan adran gynllunio'r Cynulliad ac y byddai Sue Essex, y gweinidog cynllunio ar y pryd, wedi galw'r cais i fewn pe bai wedi cael ei gymeradwyo, pan gafodd ei ystyried gyntaf ym mis Rhagfyr 2002.

Er i'r cais gael ei gymeradwyo gan bleidlais o'r cyngor llawn ym mis Ebrill, bu'n rhaid ei gyfeirio i'r Cynulliad i'w ystyried ymhellach oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â pholisi cynllunio. Fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad y mis dilynol.

Dywedodd Alun Cairns, AC y Ceidwadwyr nad oedd y frwydr i atal y cynllun drosodd eto. Ychwanegodd: *"Mae mwy na 5,000 o'r trigolion lleol yn ei erbyn. Mae codi academi rygbi yn iawn, ond dim ond ar y safle priodol"*.

Ym marn Peter Black AC, roedd y penderfyniad yn bychanu democratiaeth. Dywedodd mewn datganiad i'r wasg ar Mai 23ain fod *"y gwrthwynebiadau gan Adran Amaethyddol y Cynulliad ynglŷn â cholli tir amaethyddol gradd dau ac adroddiad arolygydd Cynllun Datblygu Unedol y Cyngor, a ddyfarnodd i bob pwrpas bod y datblygiad yn amhriodol, yn ddigon i orfodi galw i fewn gan lywodraeth y Cynulliad. Bydd y penderfyniad hwn yn tanseilio awdurdod y Cynulliad ymhlith pobl leol ac yn codi amheuaeth ynglŷn â'i barodrwydd i wrthsefyll barwniaid Llafur llywodraeth leol. Fy marn i yw bod y Prif Weinidog wedi bradychu pobl Pen-y-bont ar Ogwr, ac wedi dangos bod ymrwymiad ei lywodraeth i ddatblygu cynaliadwy yn awr yn ddiddim."*

Ymddengys bod cryn gyfiawnhad i'r honiad hwn. Gwelsom yn yr achos hwn wthio cais cynllunio dadleuol drwodd, drwy ddulliau amheus, gyda chymeradwyaeth y Prif Weinidog, ar dir a ddynodwyd yn "lletem las" ac sy'n gartref i rywogaethau a warchodir, ac yn erbyn dymuniadau dros 5,000 o drigolion lleol, adran Amaethyddol y Cynulliad, ACau lleol traws bleidiol, cyn Weinidog Cynllunio ac arolygydd cynllunio. Mae'n ymddangos bod serch y Prif Weinidog at rygbi, y mae llawer ohonom yn ei rannu, ynghŷd ag anfodlonrwydd i wrthsefyll arweinwyr awdurdodau lleol, yn dylanwadu'n drymach ar ei benderfyniadau na pholisi cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

9.4. Trowbridge, Caerdydd

Ym mis Mai 2002, gwnaeth Dinas a Sir Caerdydd gais i roi caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad tai i'w hun, oedd yn golygu 500 o dai ar 23 hectar o dir eiddo i'r Cyngor yn Trowbridge yn ardal Tredelerch yn y bridddinas. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r safle (17 hectar) unrhyw ddynodiad defnydd tir penodol yn y cynllun lleol mabwysiedig tra bod y chwe erw oedd yn weddill wedi ei ddynodi ar gyfer "busnes, diwydiant ac adeiladau warws". Er gwaethaf gosod isadeiledd sylfaenol, parhaodd y tir heb ei ddatblygu ac fe'i hystyriwyd gan y Cyngor fel "ased a wastraffwyd" gyda "photensial datblygu sylweddol". Yn hynny o beth, cynigiodd y Cyngor neilltuo'r tir ar gyfer datblygu tai yn y Cynllun Datblygu Unedol a oedd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Roedd y Cyngor wedi dynodi y dylai'r Cynllun Datblygu Unedol ddarparu ar gyfer 25,300 o anheddau newydd yng Nghaerdydd hyd at y flwyddyn 2016, gyda 6,000 ar dir "llwyd". Hefyd roedd y cais cynllunio a gyflwynwyd gan Brif Swyddog Datblygu a Materion Ewropeaidd y Cyngor yn cynnwys Datganiad Amgylcheddol. Mae hyn o gryn arwyddocâd gan fod y safle yn un sydd wedi ei ddraenio gan rwydwaith o ffosydd mawr agored sy'n gysylltiedig â Safle cyfagos Gwastadeddau Gwent. Hefyd, gan bod y safle yn gorwedd o dan lefel y môr ac yn ardal agored i berygl llifogydd, dylai yn ôl Paragraff 13.2 (Perygl Llifogydd a newid hinsawdd) Polisi Cynllunio Cymru gael ei hosgoi fel ardal ar gyfer datblygiadau newydd. Cafodd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai preswyl ar y safle ei wrthod ym 1995 oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, berygl llifogydd.

Amlygwyd gwrthwynebiad i'r cynnig yn fuan gan drigolion lleol, gyda chefnogaeth eu cynghorwyr lleol, eu AC a'u ASau, a chyrff megis Ffederasiwn Cymdeithas Trigolion Tredelerch a Chymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd, Cyfeillion y Ddaear Caerdydd a'r Gymdeithas er Gwarchod Adar yr RSPB.

Mewn llythyr yn gwrthwynebu, dyddiedig Mai 25ain, rhestrodd cadeirydd Ffederasiwn Cymdeithas Trigolion Tredelerch J.G. Cuffe ddeg pwynt a gynhwysai ddirywiad yr amgylchedd lleol a'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig , y "diffyg ymgynghori llwyr gyda thrigolion presennol Tredelerch a Trowbridge", y ffaith bod yr ardal eisoes wedi colli 75 y cant o'i "ofod glas" i ddatblygu, hanes "eithriadol o wael y Cyngor mewn codi tai yn Llaneirwg gyda llawer o fylchau sy'n bodoli", yr anniddigrwydd cymdeithasol a achosir gan ddiffyg cyfleusterau hamdden a chymdeithasol, y gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn Nwyrain Caerdydd ac ysgolion gorlawn. Aeth y llythyr rhagddo, "*unwaith eto cawn ein hunain benben a'r Cyngor di-hid hwn sy'n methu'n gyson a thrafod unrhyw beth â'r cymunedau ac sy'n gwneud penderfyniadau ar eu cyfer ac yn ein gadael ni i ddioddef canlyniadau eu gweithredoedd".*

Ym mis Tachwedd cyflwynodd yr RSPB wrthwynebiad chwephwynt manwl, fel a ganlyn:

1. Effaith sylweddol andwyol cynnig y datblygiad ar y safle, drwy golli a gwaethygu cynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau prin neu fychan cenedlaethol, gan yr ystyrir y safle ei hun o leiaf yn un o ddiddordeb cadwraeth natur lleol.
2. Diffygion yn yr Asesiad Effaith Amgylcheddol sy'n golygu y gall y safleoedd fod o ddiddordeb mwy na lleol. Mae diffygion eraill yn yr Asesiad Effaith Amgylcheddol wedi arwain at danbrisio diddordeb cadwraeth natur y safle a gorbrisio y graddau y gall y camau lliniaru a gynigir fod yn lliniaru llawn ar gyfer effaith andwyol sylweddol.
3. Effaith andwyol cynnig y datblygiad ar hydroleg Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent sydd yn gyfagos ac yn safle cadwraeth bwysig yn genedlaethol.

4. Y ffaith nad yw safle'r datblygiad wedi ei neilltuo ar gyfer datblygu tai nac unrhyw fath arall o ddatblygiad mewn cynllun datblygu a fabwysiadwyd.
5. Y ffaith bod safle'r datblygiad yn safle tir glas, pan nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynnal arolwg tir llwyd llawn o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
6. Y ffaith bod cynnig y datblygiad yn groes i arweiniad cynllunio cenedlaethol ac i'r cynllun lleol mabwysiedig. Mae Cynllun Lleol Dinas Caerdydd 1996 yn cyfeirio ym mholisi 8, at y warchodaeth a roddir i Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a nodir paragraffau niferus ym Mholisi Cynllunio Cymru 2002 fel ystyriaeth bwysig. Mae Paragraff 2.3.2 er enghraifft, yn datgan y dylai datblygiadau lle bo'n bosib, osgoi safleoedd tir glas.

7. Mae'r gwrthwynebiad hwn hefyd yn tynnu sylw at yr hyn ddywed strategaeth DC y Cynulliad, 'Dysgu Byw'n Wahanol' sy'n datgan y dylai Cymru fod yn amgylcheddol gyfoethog a biolegol amrywiol".

Mewn llythyr pellach ym mis Gorffennaf 2003, gwrthwynebodd Mike Webb, Swyddog Cadwraeth RSPB Cymru (Cynllunio) Adroddiad ac argymhelliad y Swyddog Cynllunio am gyfleu cynnwys llythyr gwrthwynebiad mis Tachwedd yr RSPB yn annheg ac am wrthod trefnu cyfarfod cyhoeddus i glywed barn y trigolion lleol. Ystyrir hyn i fod yn groes i Para 39 " Cynllunio: Cyflawni ar gyfer Cymru" sy'n datgan, "ystyriwn ymgynghori â'r gymuned fel rhan hanfodol ac annatod o'r broses".

Y mis dilynol, anogodd Steve Pantak, Cynghorwr Sir Tredelerch y pwyllgor cynllunio yn gryf i wrthod y cais ar y sail bod yr ardal wedi dioddef gan orddatblygu ac y dylid gwarchod yr ychydig ardaloedd o ofod gwyrdd sy'n weddill; agosrwydd yr Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; y cynnydd disgwyliedig yn y lefelau trafnidiaeth; ac annhebgrwydd cael gwasanaeth bws digonol. Hefyd gwrthwynebodd y Cynghorwyr lleol Robert Derbyshire a Ralph Cook y cais.

Rhannodd Lorraine Barrett yr AC lleol ac Alun Michael yr AS lleol, bryderon y Cynghorydd Pantak gan gydlofnodi llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn datgan "*na ddylai'r cynnig gael ei dderbyn fel y mae".* Hefyd mae'r llythyr yn codi pryderon ynglŷn â nifer o faterion eraill. Cyfeiriant, er enghraifft, at "gyfrifoldebau eraill gwahanol y Cyngor i sicrhau incwm wrth werthu asedau a chael cyflenwad addas o dai ar gyfer y ddinas" ac at y *"canfyddiad bod yr awdurdod lleol yn gwneud y cais a hefyd yn ei ystyried wrth geisio caniatâd cynllunio".* Yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio nodwyd bod y Cyngor yn rhagweld cyfraniadau ariannol gwerth £1,679,000 gan y datblygwr tuag at ddarparu rhai gwasanaethau, megis trafnidiaeth ac addysg. Byddai hynny yn ychwanegol at y symiau sylweddol a geir drwy werthu'r safle a'r dreth y cyngor ar y tai a'r adeiladau. Ar y polisi cynllunio dywed yr AC a'r AS *"nid yw Cynllun Datblygu Lleol drafft ar adnau eto, ac mae'n siwr mai hwnnw yw'r ddogfen y dylid barnu y cais hwn wrtho"..*

Er gwaethaf y ffactorau sylweddol hyn a'i wrthdaro yn erbyn polisi cynllunio a DC, rhoddodd pwyllgor cynllunio'r Cyngor ganiatâd cynllunio amlinellol i'w hun yn ei gyfarfod ar Awst 13eg 2003. Dyma ddywedodd y Rumney Village News ym mis Tachwedd:
"mae'n ymddangos fod Barwniaid Cyngor Sir Caerdydd yn credu mai taeogion i'w hanwybyddu yn unig yw pob un o drigolion pen Dwyreiniol y Ddinas i'w hanwybyddu a'u rheibio o'u holl asedau, boed yn rhai ariannol neu yn dir. Mae Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn awr wedi cymeradwyo tir yn Trowbridge i'w ddatblygu y mae bron pawb yn yr ardal wedi ymladd i'w hatal hwy rhag ei ddatblygu. Digwyddodd hyn i gyd o dan glogyn cynllunio ond gyda'r bwriad mewn gwirionedd o lanw coffrau'r ddinas ag arian."

9.5. Ffordd Osgoi Bargoed

Meddyliwyd gyntaf am ffordd osgoi Bargoed ym 1977 ac fe'i cynlluniwyd gan Gyngor Sir Morgannwg ym 1986. Amcanion y cais, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, oedd *"i ysgafnhau canol tref Bargoed brysur o draffig trwodd; i ddarparu llwybrau gwahanol ar gyfer traffig trwodd, seiclwyr a cherddwyr; i alluogi gwelliant i ganol tref Bargoed gael ei weithredu; i alluogi darpariaeth gorsaf reilffordd a gorsaf fysiau newydd ar gyfer y dref; ac i ddarparu mynediad i'r Parc Gwledig arfaethedig a'r safle pwll glo adferedig ar gyfer defnyddiau diwydiannol ysgafn"* (16). Byddai'r ffordd osgoi, fodd bynnag, yn cael ei chysylltu'n agos i gread llwyfandir ar yr un pryd ar gyfer datblygiad adwerthol, archfarchnad yn bennaf, i'r de ddwyrain o ganol tref Bargoed. Yn ôl adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd CBS Caerffili (11eg Mawrth 2003) roedd hyn *"yn hollol dyngedfennol ar gyfer adfywio'r dref".*

Ystyriwyd fod yn rhaid datblygu'r ddau brosiect – ffordd osgoi ac archfarchnad – ar yr un pryd gan na fyddai'r un archfarchnad yn lleoli ar y llwyfandir heb ffordd osgoi, oherwydd diffyg amlygrwydd y safle o'r stryd fawr. Hwn fyddai, fodd bynnag, "y rhan fwyaf amlwg o ganol y dref i'w weld o'r brifffordd newydd".

Cefnogwyd y cynllun hwn gan adroddiad ymgynghorydd, adroddiad Donaldson, a gomisiynwyd gan y cyngor. Nododd ymchwil, Arolwg Agwedd Siopwyr (17), bod Bargoed yn cael ei ystyried fel canolfan siopa ar gyfer bwydydd o'i chymharu â threfi cymdogol, gan gymell y cyngor i hawlio fod hyn yn cyfiawnhau eu cynlluniau ar gyfer "gwella". Gwneir tri chyfeiriad cefnogol i'r cynnig yn CDU y cyngor. Unodd y prif bleidiau gwleidyddol i'w gefnogi, gydag AC Caerffili, Jeff Cuthbert, yn hawlio, fod gan y ffordd osgoi gefnogaeth lwyr pobl Bargoed (18).

Nid oedd yr hawliad hwn yn gwbl gywir gan fod rhai trigolion lleol wedi mynegi gwrthwynebiad i'r ffordd osgoi a'r archfarchnad gysylltiedig. Dyfynnwyd Barbara Stephens, oedd â siop bapur ar Hanbury Road, yn y South Wales Echo (Gorffennaf 16eg 2001), "*er bod angen rhywbeth wedi ei wneud i Fargoed, nid ydym am gael ffordd osgoi gan y bydd yn mynd â masnach oddi wrthym*".

Mynegodd Mr Mathu, perchennog The Indian, unig dŷ bwyta Bargoed, bryder y byddai ffordd osgoi ond yn lleihau'r traffig ar y stryd fawr, a hynny ychydig wythnosau cyn i'w dŷ bwyta gael ei orfodi i gau oherwydd diffyg traffig ar y stryd fawr.

Cred Cath Fenton, sy'n rhedeg Gigabytes Café a sefydlwyd gan Churches in Action gydag arian Amcan Un a'i agor gan Rhodri Morgan ym mis Ebrill 2002, fod ffyrdd osgoi ond yn godro tref, ac ar gyfer siopa ar raddfa fawr, bod Tesco i'w chael dim ond 2 filltir i lawr y ffordd yn Hengoed. Cafodd ei gŵr John, pregethwr lleyg gyda'r Eglwys Anglicanaidd, ei gyfweld ar y rhaglen 'Good Morning Wales' ar y BBC yn gwrthwynebu'r ffordd osgoi a'r syniadaeth y tu ôl iddi.

Gwelwyd y gwrthwynebiad lleol cryfaf gan Matt Wootton, ymgyrchwr lleol a gynhyrchodd yr adroddiad 10,000 o eiriau 'Don't Bypass Bargoed' ynghyd â gwefan www.dontpassbargoed.org.uk. Mae'r adroddiad yn dyfynnu ymateb yr Athro John Whitelegg, Athro Cludiant yn Athrofa Stockholm Prifysgol Efrog ac athro Datblygiad Cynaliadwy ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl:

"Rydw i wedi bod yn edrych ar gynigion ffyrdd am dros 25 o flynyddoedd ac wedi edrych yn llythrennol ar gannoedd o gynlluniau ffyrdd ar draws y DG. Dydw i ddim wedi gweld dim cyn waeled â hyn erioed o'r blaen. Ddim erioed. Mae'n gynllun trychinebus, cawl yn wir. Yr oll

sydd gen i i'w ddweud yw mae'n rhaid bod rhywbeth od iawn yn digwydd yn y rhan yma o'r byd."

Rhoddir cymhareb 'budd/cost' i bob ffordd arfaethedig yn y DG ble y gosodir cost yr adeiladu yn erbyn y manteision ariannol a chymdeithasol a ddaw yn ei sgîl. Yn ôl yr Athro Whitelegg, dylai manteision ffordd newydd fod o leiaf yn ddwbl ei chost os ydyw am gael ei hystyried ar gyfer ei chymeradwyo, gan roi cymhareb o ddau iddi. Cymhareb ffordd osgoi Bargoed yw rhwng minws 0.009 a phlws 0.118. Amcangyfrifodd yr Athro Whitelegg hefyd fod y ffordd osgoi yn sgorio'n wael o ran costau, gyda Gwerth Presennol Net o minws £10.5m i minws £12m.

Dywedodd arbenigwr cludiant arall, Neil Crumpton o Gyfeillion y Ddaear Cymru, "Ni all Cyfeillion y Ddaear Cymru weld rheswm clir dros gynllun £17 miliwn ffordd Bargoed arfaethedig. A hyd yn oed fel aelod o Fforwm Cludiant Cymru, ni wn pam fod y cynllun yma wedi ei flaenoriaethu".

Yn ôl adroddiad 'Don't Bypass Bargoed', un o agweddau mwyaf syfrdanol y cais cynllunio yw na fydd y ffordd osgoi o reidrwydd yn llwyddo i gwtogi amseroedd siwrneiau. Mae'n amcangyfrif y byddai siwrnai drwy Stryd Fawr glir yn teithio 25mya ychydig yn gynt na ffordd osgoi gyflym. Ac er y byddai'n symud ychydig o draffig o rannau o ganol y dref, dengys yr asesiad effaith traffig y bydd llif traffig ar y Stryd Fawr yn aros yr un fath neu'n codi erbyn 2007. Ar y cyfan, byddai'r ffordd newydd yn peri twf traffig sylweddol yn yr ardal, gan gynrychioli symudiad moddol tuag at ddibyniaeth ar y car mewn ardal ble mae perchnogaeth car preifat yn eithaf isel, a ble y mae gwasanaethau bws yn cael ei sybsideiddio gan lai na hanner y cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae hyn yn rhedeg yn groes i amcan cyntaf CBSC yn adran cludiant y CDU: "*I wella cyfleodd ar gyfer dewisiadau eraill i'r defnydd o'r cerbyd modur a symud cludo llwythi ar y ffordd*". Mae'r CDU hefyd yn datgan: "*Edrychir nawr ar geisio datrys y problemau cynyddol drwy adeiladu ffyrdd yn unig fel rhywbeth amgylcheddol annerbyniol*" (4.4) ac mae'n nodi bod nod y Llywodraeth ar gyfer cludiant yng Nghymru yn cynnwys "*lleihau dibyniaeth ar y car*" (4.6). Gan na chynigwyd dim cynlluniau i ystyried mesurau nad oedd yn golygu adeiladu ffyrdd mae'r cais hefyd yn gwrthdaro gyda Polisi Cynllunio Cymru, sy'n datgan ym mharagraff 8.5 y dylai awdurdodau lleol sicrhau pan yn cynllunio isadeiledd newydd y dylid "*ystyried yr ystod llawn o atebion posib, gan gynnwys atebion gwahanol i wella ffyrdd*".

Byddai'r ffordd osgoi arfaethedig yn torri drwy Barc Gwledig Bargoed a grëwyd yn ddiweddar ac, o'r herwydd, byddai'n torri polisïau CDU y cyngor a Pholisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â chynnal Lletem Werdd a pheidio â chyfuno Bargoed ac Aberbargoed. Byddai'r ffordd osgoi newydd yn galluogi teithio mewn car rhwng y ddwy dref yma mewn 86 eiliad, sy'n amlwg yn llai o amser nag y mae'n ei gymryd i symud o gwmpas ym Margoed ei hun. Anodd hefyd yw dychmygu sut y gallai adeiladu ffordd 60mya drwy Barc Gwledig gydymffurfio gydag ymrwymiad y CDU i "*warchod cefn gwlad rhag datblygu amhriodol*" ac "*i gymryd i ystyriaeth cadwraeth natur, tirwedd a gwerth mwynder drwy'r sir*". Mae'r ardal yn wir wedi ei dynodi fel tir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer Datblygiad Parc, polisi sydd, yn ôl y CDU, yn "*hyrwyddo ymestyn y parciau, sy'n darparu ar gyfer esmwythâd gweledol ac adloniant tawel mewn ardaloedd trefol. Bydd cynllun sympathetig parciau newydd yn cynnig y cyfle i sefydlu safleoedd bywyd gwyllt trefol a gwledig.*" Mae hyn yn anghyson iawn gyda chynllun fyddai'n cynyddu lefelau sŵn 16 gwaith.

Yn yr ychydig fisoedd diwethaf, mae'r cyngor wedi ailenwi Parc Bargoed yn Barc Coetir Bargoed Woodland Park wedi i'r cyngor yn 2002 sicrhau £289,000 mewn cymorth grant gan raglen grant Cydcoed y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer gwella llwybrau troed, creu 11 porth newydd i'r parc, gwelliannau i ffiniau, plannu 11,000 o goed a 22,000 o flodau gwyllt a chyhoeddi llyfr newydd yn adrodd hanes y prosiect cyfan: "Bargoed, a Landscape Waiting". Pan gyhoeddodd y cyngor enw newydd y parc ym mhapur newydd Caerphilly Campaign ar yr

11eg o Ragfyr 2003, dewiswyd ddangos prydferthwch y parc gyda llun o'r union fan ar yr afon Rhymni y maent yn cynnig ei chroesi gyda phont goncrid gref i gludo'r ffordd osgoi. Ar hyn o bryd mae'r safle yn gartref i ddyfrgwn, a bydd pobl yn pysgota yno'n aml.

Er mai prif nod y cais yw gwella economi'r ardal, dengys ymchwil fod archfarchnadoedd ymyl trefi yn niweidio busnesau cymunedol sy'n bodoli. Daeth adroddiad y DETR 1998, 'The Impact of Large Food Stores on Market Towns and District Centres' i'r casgliad bod siopau bwyd yn colli 13 y cant i 50 y cant o'u masnach pan fydd archfarchnad yn agor ar ymyl canol tref. Mae yna hefyd dystiolaeth fod archfarchnadoedd yn cael effaith negyddol ar gyflogaeth. Daeth adroddiad gan y Fforwm Cynllunio Adwerthu Cenedlaethol (19), a noddir gan siopau mawr megis Sainsbury's, Tesco, Marks and Spencer a Boots, i'r casgliad bod, o fewn radiws 15km o archfarchnad, gostyngiad cyfanswm cyflogaeth mewn gwerthu bwyd gan 5.2 y cant. Cyfrifasant golled swyddi net o 276 am bob archfarchnad sy'n agor. Gellir cyfiawnhau y sylwad gan berchennog y siop bapur ar y Stryd Fawr, Barbara Stephens, sef, "*Dydw i ddim yn credu y bydd y ffordd osgoi yn dod â buddsoddiad. I'r gwrthwyneb, rydw i'n credu y bydd y cynllun hwn yn lladd y dref*."

Gallai mwy o fudd economaidd ddod i'r gymuned leol drwy fabwysiadu ymdriniaeth ddilyniannol, fel yr argymhellir gan Bolisi Cynllunio Cymru. Mae Paragraff 10.2.11 yn annog awdurdodau lleol i roi'r ffafriaeth gyntaf i leoliadau canol tref, sy'n bodoli ym Margoed, cyn canolfannau ymyl tref. Mae hen ddigon o siopau gwag ar Stryd fawr Bargoed i wneud hyn yn bosib.

Mae cynnig arall, sy'n cynnwys cylch un ffordd ar gyfer canol tref Bargoed, maes parcio newydd, gwell gwasanaethau trên, lonydd beiciau a ffordd dwy lôn newydd tu cefn i siopau'r Stryd Fawr, fyddai hefyd yn galluogi siopau i lwytho o'r cefn, wedi ei gynnig gan wrthwynebwyr lleol i gynnig y Cyngor gyda chefnogaeth gan Gyfeillion y Ddaear Cymru . Mae'r Cynulliad, yn Polisi Cynllunio Cymru Para 2.7.1, yn ffafrio'n glir iawn ailddefnyddio safleoedd tir llwyd sy'n bodoli. Byddai'r cynnig arall yma wedi cydweddu'n llawer gwell gyda pholisïau cynllunio ac egwyddorion datblygiad cynaliadwy a byddai wedi bod yn fwy tebygol o ailfywiogi'r economi leol.

Er bod cais cynllunio'r cyngor yn gwrthdaro gyda'i bolisi cynllunio ei hun a pholisi cynllunio'r Cynulliad, ym mis Ionawr 2002 ymrwymodd Sue Essex, Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad, £17.4m i ariannu'r cynulliad ar gyfer y cynnig, ac, ym Mehefin 2003, rhoddodd CBSC ganiatâd cynllunio iddo'i hun. Mae'r cyngor hefyd wedi cytuno i geisio cytundeb Menter Ariannu Preifat i ariannu y datblygiad ar y llwyfandir.

Mae adroddiad 'Don't Bypass Bargoed' yn dod i'r casgliad:

"Byddai'r cyfuniad o'r ffordd osgol a'r llwyfandir adwerthu yn chwyddo ei gilydd i greu effaith negyddol iawn ar y nodau datganedig ar gyfer Bargoed ar ardal sy'n ei hamgylchynnu fyddai'n niweidio siopau'r gymuned, yn cynyddu diweithdra, cynyddu safleoedd sy'n wag, annog traffig ac yn cynyddu dibyniaeth ar y car (mewn ardal sydd yn is na'r cyfartaledd am berchnogaeth car) ac eithrio cymdeithasol. Byddai'n dinistrio Parc Gwledig Bargoed sy'n werthfawr yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol".

Cysyniad o'r 1980au yw hwn sydd wedi ei lusgo i'r unfed ganrif ar hugain er gwaethaf polisi cynllunio cyfoes ac egwyddorion datblygiad cynaliadwy.

9.6. De Sebastopol, Pont-y-pŵl

Ymddangosodd y cynnig i ddatblygu tai ar safle cae glas 138 hectar, sy'n gorwedd rhwng De Sebastopol, Pont-y-pŵl a Phontnewydd, Cwmbrân, gyntaf yng Nghynllun Lleol Torfaen ac fe'i cyflwynwyd i'w archwilio ym 1996. Cododd hyn wrthwynebiad sylweddol gan fod y safle'n cael ei ystyried fel mwynder cymuned gwerthfawr, a gâi ei ddefnyddio gan bob grŵp cymdeithasol, gyda llawer o lwybrau troed cyhoeddus a llwybrau seiclo ac amrywiaeth o fywyd gwyllt. Darparodd ardal chwarae plant anffurfiol o fewn cyrraedd diogel i dai presennol, yn ogystal â thir pori ar gyfer gwartheg, defaid a cheffylau. Llifai camlas Trefynwy Aberhonddu drwy'r safle ac fe'i hadferwyd yn ddiweddar i alluogi hwylio, pysgota a dychweliad bywyd gwyllt.

Mewn cyferbyniad, dyfynnwyd arweinydd CBS Torfaen, Brian Smith, yn y Free Press (Mehefin 2002) yn dweud, *"gwnaeth y cyngor benderfyniad fydd yn sicrhau y bydd ein hymrwymiad cyfreithiol i ddarparu ar gyfer cartrefi'r dyfodol yn cael ei ddiwallu yn y modd gorau posib. Drwy fabwysiadu'r fframwaith cynllunio fanwl yma byddwn yn gallu rheoli creu pentref newydd gyda'r potensial ar gyfer ysgol gynradd newydd, cyfleusterau cymunedol ac ardaloedd chwarae. Bydd un datblygiad ar raddfa fawr o'r math hwn yn bodloni'r angen ar gyfer datblygiad preswyl am nifer o flynyddoedd."*

Ym mis Gorffennaf 1996 ffurfiwyd grŵp 'Fight the Plan' (FTPG) gan drigolion ar Stad Five Locks ym Mhontnewydd er mwyn gwarchod y 'llain las' hon ac i wrthwynebu Cynllun Lleol i'w Archwilio Torfaen. Gwnaed 1,780 o gynrychioliadau i'r Cynllun, 707 mewn perthynas â datblygiad arfaethedig De Sebastopol. Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ym 1998, ac, yng Ngwanwym 1999, gwelodd adroddiad yr Arolygydd, tra'n cydnabod pryderon grwpiau cymuned a grwpiau diddordeb arbennig, o blaid datblgyiad y safle. Dywedodd yr adroddiad y byddai unrhyw ddatblygiad yn sensitif ar sail amgylcheddol ac y dylai gael ei ragflaenu gan baratoad brîff datblygu ar gyfer y safle. Derbyniodd Gyngor Bwrdeistref Torfaen argymhellion yr Arolygydd a dywedasant na fyddent yn fodlon rhoi caniatâd cynllunio amlinellol nes y byddai'r Ddogfen Fframwaith Datblygiad wedi ei chymeradwyo gan y cyngor. Ym mis Gorffennaf 2002, mabwysiadwyd Cynllun Lleol Torfaen (Cynllun Datblygu statudol) gan y cyngor. Clustnodod hyn yn ffurfiol y 138 hectar o dir yn Ne Sebastopol fel Ardal Datblygiad Cyffredinol fel y prif ddyraniad tai a fwriadwyd i letya 1,200 o aneddiadau, cyfleusterau siopa, ysgol gynradd, cyfleusterau cymunedol a pheth tir agored. Erbyn mis Medi, roedd FTPG wedi cael 1,427 llofnod yn cefnogi eu cais aflwyddiannus i Weinidog dros yr Amgylchedd y Cynulliad, Sue Essex, i alw'r Cynllun Lleol i mewn. Parhaodd FTPG i warchod safle De Sebastopol drwy gymryd rhan yn ymgynghoriad i Ddogfen Fframwaith Datblygu mewn cydweithrediad â grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau cymunedol. Roedd nifer o gyrff – FTPG, Cyfeillion y Ddaear Torfaen, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, Crwydrwyr Gwent, CPRW, Cyfeillion y Ddaear Cymru a Grŵp Prosiectau Arbennig Griffithstown a Sebastopol – i ffurfio Consortiwm Fframwaith Amgen.

Ym mis Mehefin y flwyddyn ganlynol, cyflwynwyd dau gais cynllunio amlinellol ar ran consortiwm datblygu, oedd wedi ei wneud o'r WDA, Barratt De Cymru a Bryant Homes i adeiladu 1,200 o gartrefi ar y safle. Byddai'r cynnig hwn yn gorchuddio bron yr holl "ofod glas" rhwng De Sebastopol a Pontnewydd â thai. Comisiynodd y Consortiwm Fframwaith Amgen 4D Landscape Design i gynhyrchu cynllun arall a fyddai wedi caniatáu ar gyfer adeiladu tai gam wrth gam mewn pedair ardal benodol tra'n cadw llawer o'r "gofod glas" gyda pharthau byffer llydan ar hyd camlas Trefynwy Aberhonddu a choridorau bywyd gwyllt drwy'r safle.

Roedd y Ddogfen Fframwaith Datblygu drafft i fod i gael ei chyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Ionawr 2002 ond cafodd hyn ei ohirio gan y dadleuon anferthol a gododd o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig. Erbyn hyn roedd gwrthwynebiad i ddatblygu'r

safle gwyrdd hwn wedi tyfu'n sylweddol. Roedd TFPG nawr yn gweithio'n agos gyda nifer o gyrff eraill, megis Cyfeillion y Ddaear, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Chymdeithas y Crwydrwyr, ac roedd wedi cynhyrchu gwrthwynebiadau manwl i'r cynnig.

Ein pryder arbennig oedd agweddau mwynder a bywyd gwyllt y "llain werdd" hon rhwng Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Teimlwyd y byddai ei ddatblygiad yn torri cyfarwyddwyd cynllunio oedd yn gofyn am warchod lleiniau gwyrdd; polisïau llywodraeth oedd yn pwysleisio pwysigrwydd parciau, gofodau agored ac ardaloedd hamdden mewn cyd-destun trefol; ac egwyddorion datblygu cynaliadwy. Drafftiodd FTPG lythyr o wrthwynebiad oedd yn cyfeirio at ddeuddeg agwedd o Bolisi Cynllunio Cymru, ar faterion megis lleiniau glas, cadwraeth, adennill tir, tai, cludiant a thwristiaeth, yr oedd yn ei ystyried yn briodol.

Lleisiodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent bryderon ynglŷn â'r bygythiad i nifer o rywogaethau ar y safle, megis cimwch yr afon, dyfrgwn, pathewod, pryfed tân, moch daear, llygod dŵr ac amrywiaeth o adar. Roedd tri phlanhigyn oedd yn brin ar draws Gwent wedi eu cofnodi ar y safle ac roedd y cynefinoedd allweddol yn cynnwys gwrychoedd hynafol oedd yn gyfoeth o rywogaethau a gwelltiroedd corslyd a sych yn gyfoeth o rywogaethau. Galwodd yr Ymddiriedolaeth ar i'r "cynllun gwarthus hwn" gael ei wrthod oherwydd y byddai'n dinistrio brithwaith pwysig iawn o gynefinoedd bywyd gwyllt a safle glas prydferth oedd yn gweithio fel 'ysgyfaint gwyrdd' yn gwahanu Pont-y-pŵl a Chwmbrân tra bod safleoedd tai posib eraill ar gael mewn ardaloedd trefol neu ar safleoedd tir llwyd.

Ymchwiliwyd i werth archeolegol y safle gan yr Athro David Austin o Brifysgol Llambed a ddaeth i'r canlyniad fod y safle o arwyddocâd archeolegol *"gydag amrywiaeth gyfoethog a hanes dwfn, gyda'r rhan fwyaf ohono mewn cyferbyniad i'w gyd-destun diwydiannol union a chyn-ddiwydiannol. Mewn ychydig oriau o gerdded tirwedd nad oeddwn wedi ei weld o'r blaen, deuthum ar draws tirwedd o arwyddocâd lleol eithafol. Mae'n endid holistig a di-fwlch, adnodd na ellir ei ailadrodd, a grëwyd ac a gynhelir o hyd gan weithredoedd pobl gyffredin."*

Ymddangosai gwasanaethau isadeiledd (draeniad, dŵr, carthffosiaeth, cyflenwad dŵr a thrydan) yn annigonol gyda Western Power a Hyder yn tynnu sylw at allu annigonol, tra bod gwrthwynebwyr yn cwyno nad oedd unrhyw astudiaethau argaeledd tir tai diweddar ar gael. Ystyriodd y Consortiwm Fframwaith Amgen fod y rhwydwaith ffyrdd lleol yn annigonol a chredwyd fod asesiadau effaith trafnidiaeth a llygredd aer yn danamcangyfrifon.

Ysgrifennodd Asiantaeth yr Amgylchedd lythyr arwyddocaol yn nodi pam nad allant gefnogi'r cais cynllunio. Cyfeiriodd hyn at bwysigrwydd cadw lletem las i roi bywyd gwyllt, mwynderau aesthetig, adlonianol, hamdden ac addysgol ac i atal uniad trefi Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Nododd y llythyr *"rhaid cadw stoc o safleoedd lletem las gan ei fod yn adnodd positif ac yn rhan o gynaliadwyedd trefol"*. Aeth rhagddo i amlinellu pryderon sylweddol mewn perthynas â materion draeniad, tir wedi ei wenwyno a dŵr sefyll.

Un o'r agweddau o'r datblygiad arfaethedig sy'n peri'r mwyaf o bryder i bobl leol fu diddordeb ariannol uniongyrchol CBS Torfaen. Cyfrifodd Mike Jacob, cadeirydd FTPG, gyda chymorth ymgynghorydd cynllunio, yr incwm canlynol ar gyfer y cyngor o'r datblygiad 1,200 o dai.

<u>Incwm Cyfalaf</u>
Gwerthiant stribedi o dir a ddelir ar gamlas Trefynwy Aberhonddu £2 filiwn
Incwm a amcangyfrifir o Adran 106 Cytundeb Mantais Gynllunio £5 miliwn

<u>Incwm Refiniw</u>

1,000 o gartrefi uwchraddol ym Mand G £120,001 - £240,000 ar gyfradd Treth y Cyngor o £1,091.310 = £1,091,310
200 o gartrefi fforddiadwy ym Mand D £51,001 - £66,000 ar gyfradd Treth y Cyngor o £654.79 = £130,958

Cyfanswm incwm ailadroddus = £1,222,268

Mae hyn yn dangos y refiniw sylweddol all ddod i Awdurdodau Unedol Cymru gan ddatblygiad. Canlyniad hyn yw pwysau ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i benderfynu ceisiadau cynllunio ar sail ariannol yn hytrach nac ar ystyriaethau cynllunio pwysig, ac i dalu dim mwy nac ystyriaeth gosmetig i ddatblygu cynaliadwy.

Mae'n werth nodi yma fod cartrefi uwchraddol yn newid strwythur cymdeithasol ardal ac yn cynhyrchu incwm sylweddol heb roi galw yr un mor sylweddol ar wasanaethau. Mae safle De Sebastopol wedi ei leoli'n agos i rwydwaith ffyrdd da gyda thaith ond 45 munud i Fryste.

Er y gwrthwynebiad sylweddol i'r datblygiad tai arfaethedig a'i wrthdrawiad gyda chyfarwyddyd cynllunio ac egwyddorion datblygu cynaliadwy, trefnodd CBS Torfaen gyfarfod ar gyfer Medi'r 8fed ble mai'r bwriad oedd cytuno'r cais cynllunio amlinellol ac felly rhoi'r golau gwyrdd i ddechrau ar y gwaith adeiladu yn Ne Sebastopol. Drwy ryw dro eironig, fe'u rhwystrwyd rhag gwneud hyn oherwydd darganfyddiad cimychiaid yr afon pawen wen prin ar y safle. Yn ôl Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, mae gan CBS Torfaen oblygiad rhyngwladol i warchod y rhain.

Ers hynny, mae Cyfeillion y Ddaear Torfaen wedi cyhoeddi Gweithrediadau Torri rheolau (cwyn i'r Comisiwn Ewropeaidd) yn erbyn CBS Torfaen a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â llygredd aer yn Nhorfaen a'r cynnydd a fyddai'n digwydd o adeiladu tai De Sebastopol. Yn yr un modd, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent wedi cyhoeddi Gweithrediadau Torri rheolau mewn perthynas â diffyg cydymffurfiad gyda Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol.

Cododd Lynne Neagle, yr AS lleol y mater yn y Cynulliad ar Ragfyr 1af pan ddywedodd:

"Mae'r cynnig datblygu ar gyfer De Sebastopol yn fy etholaeth yn enghraifft dda o ddiraddiad gofod glas trefol. Dyma'r darn glas olaf rhwng Pont-y-pŵl a Chwmbrân, mae'n gartref i fywyd gwyllt pwysig ac mae'n bwysig i bobl leol, eto caiff ei fygwth gan ddatblygiad dros 1,000 o dai. Dylai'r broses gynllunio osgoi annog yr union fath yma o ddatblygiad."

Er y bydd cyrff megis FTPG, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Chyfeillion y Ddaear Torfaen yn parhau i wrthwynebu'r datblygiad anghynaliadwy hwn, ni ddylai neb gymryd yn ganiataol y gwrandewir ar ble Lynne Neagle. Ymddengys nad yw'r 'Cytundeb rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC ar Ddatblygu Cynaliadwy' wedi cael effaith hyd yma ar CBS Torfaen ac nad yw ymdrechion y Cynulliad i ddylanwadu ar y WDA, aelod o'r consortiwm datblygu, ar faterion cynaladwyedd wedi newid fawr.

9.7. Parc Hamdden Bluestone, Sir Benfro

Cynnig yw hwn ar gyfer cyfadeilad gwyliau hunangynhaliol mawr ar 400 erw o ffermdir a dyffryn coediog ger Arberth yn Sir Benfro. Mae'r datblygiad mewn dau ran, ardal y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac ardal o fewn y Parc Cenedlaethol. Byddai'r ardal y tu allan i'r parc, a gafodd ganiatâd cynllunio amlinellol gan Gyngor Sir Benfro yn gynharach yn 2003, yn cynnwys 'water world' a 'snowdome' yn ogystal â meysydd parcio,

ffyrdd mynediad, cylchfan ar yr A4075, adeiladau gweinyddu ac adeilad a elwir yn 'ganolfan ynni' yn cynnwys gwaith gwres a pŵer wedi gyfuno. Byddai'r ardal hon yn agored i'r cyhoedd. Byddai adran y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cyfadeilad gyda 340 o dai pren unllawr a deulawr, wedi eu mewnforio wedi eu rhan adeiladu o Estonia, cyfleuster chwaraeon mawr mewn adeilad 34 troedfedd o uchder dros 2400 milltir sgwâr, a phentref 'arddull traddodiadol' gyda bythynnod ychwanegol, rhandai, siopau, cyfleusterau arlwyo a chyfleusterau harddwch a iechyd. Gallai'r cyfadeilad ddal 2,500 o bobl, sy'n gymharol gyda phoblogaeth pentref Saundersfoot. Ar safle ar wahân yn agos i felin Blackpool, yn dal o fewn y Parc Cenedlaethol a nesaf at Ardal Arbennig o Gadwraeth a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, fe fyddai gwaith carthffosiaeth yn gollwng carthffrwd wedi ei drin i fannau llanwol uchaf Afon Cleddau. Mae'r datblygwr wedi ei gwneud yn glir, fodd bynnag, na fyddai unrhyw ran o'r prosiect yn mynd rhagddo ar ei ben ei hun.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno fel cysyniad newydd yn cynnig ansawdd uchel o wyliau gydol y flwyddyn, gan alluogi ymwelwyr i deimlo'n agos at natur. Mae wedi ei hyrwyddo'n gryf, gyda chefnogaeth papurau newydd, cynghorwyr sir, cynrychiolwyr o'r prif bleidiau gwleidyddol, undeb ffermwyr a chyrff cymorth busnesau, yn bennaf oherwydd ei fod yn addo tua 600 o swyddi mewn ardal sydd wedi profi diweithdra uchel a CMC isel. Mae cefnogwyr hefyd wedi dadlau y byddai'n codi proffil Sir Benfro fel cyrchfan twristiaeth o safon; yn darparu cyfleusterau tywydd drwg, ac felly'n goresgyn problemau tymhorol presennol; denu ymwelwyr newydd yn gwario llawer i'r Sir; creu darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant o ansawdd i fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y Sir i wella eu sgilau; bodloni angen y Bwrdd Croeso am bentref gwyliau yng Nghymru; ac yn cynorthwyo busnesau, gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli yn Sir Benfro a ffermio. Derbyniodd y prosiect £45 miliwn, ar y cychwyn, becyn cymorth £16 miliwn gan 'Tîm Cymru' wedi ei greu o £10 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, £3 miliwn gan y WDA, £1.5 miliwn gan Fwrdd Croeso Cymru a benthyciad stoc o £2 miliwn a drefnwyd drwy Gyllid Cymru.

Mae rhai wedi dadlau fod yr addewid yma o arian Cynulliad ar gyfer cais cynllunio nad oedd eto wedi ei benderfynu yn hynod amhriodol a gallai, ynghyd â'r gefnogaeth uchel a dderbyniodd y pecyn, fod wedi rhoi pwysau annerbyniol ar Swyddogion Cynllunio y Parc Cenedlaethol i edrych yn ffafriol ar y cais. Er enghraifft, dyma pedd sylw'r Cyngor dros Barciau Cenedlaethol:

"Mae'r pwysau gwleidyddol a roddir ar aelodau o'r Awdurdod Parciau i gymeradwyo cynnig Bluestone mewn perygl o rwystro penderfyniad teg a diduedd. O ystyried natur hynod wleidyddol y cynnig datblygu hwn, yr ydym yn ystyried nad oedd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ddewis ond diogelu integriti y broses gynllunio drwy gymryd y penderfyniad allan o ddwylo'r Awdurdod Parciau Cenedlaethol ." [Datganiad i'r wasg 16-10-03]

Mae gwrthwynebiad i'r datblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, wedi tyfu dros y misoedd diwethaf ac wedi cynnwys, nid dim ond cyrff cadwraeth megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CPRW, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Sir Benfro, y Cyngor dros Barciau Cenedlaethol a Chyfeillion y Ddaear, ond sectorau o'r diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro, nifer o unigolion ac adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae gwrthwynebwyr yn honni fod y cais yn gwrthdaro gyda pholisi cynllunio; gallai'r safle, ac yn wir dylai'r safle, gael ei leoli yn gyfan gwbl tu allan i'r Parc Cenedlaethol; byddai'n gosod cynsail ar gyfer datblygiadau graddfa fawr amhriodol ymhob Parc Cenedlaethol yn y dyfodol; byddai'n cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd; mae'n cyflwyno achos busnes gor-optimistig; gallai niweidio gweithredwyr twristiaeth bychan sydd eisoes yn bodoli; a byddai'n achosi problemau traffig. Mae rhai yn tynnu sylw at werth economaidd a chreu swyddi presennol statws parc cenedlaethol ac i'r ffaith ei fod eisoes yn edrych yn anodd i recriwtio digon o weithwyr ar gyfer y diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro.

Mae llythyr o wrthwynebiad, a ysgrifennwyd gan Graham Tayler ac wedi ei lofnodi gan nifer o fusnesau lleol yn y diwydiant twristiaeth, yn herio'n gryf rai o'r honiadau a wnaed ar gyfer Bluestone ac wrth gloi dywed, *"mae'r pryderon a amlinellir yn y llythyr hwn gymaint fel y credir y bydd prosiect Pentref Bluestone yn creu mwy o broblemau economaidd ar gyfer busnesau presennol nag y bydd o fantais". Un o'u pryderon yw "nad yw busnesau twristiaeth yn Sir Benfro yn gallu recriwtio'r nifer sydd ei angen o staff, waeth beth fo'r manteision a gynigir; tâl, manteision, llety ayb. Mae rhai gwestai yng Nghymru nawr yn cael eu staffio'n gyfan gwbl gan weithwyr ymfudol o wledydd newydd yr UE."* Maent hefyd yn nodi, *"ble bynnag y bydd Center Parcs yn agor safle bydd yn lleihau busnes i eiddo hunanarlwyol yn yr ardal."*

Gwrthwynebodd Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad y cais, wedi dadlau honiad y datblygwr ynglŷn â faint o dir amaethyddol da fyddai'n cael ei effeithio, gan ei fod yn anghyson â'r gofyniad ym Mharagraff 2.8.1 o Bolisi Cynllunio Cymru i ddiogelu tir amaethyddol Gradd 3a fel cadwraeth benodol ar gyfer y dyfodol.

Cyhoeddodd y Cyngor dros Barciau Cenedlaethol, gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CPRW a FPNP, ddatganiad i'r wasg (Gorffennaf 31ain 2003) ble yr oeddent yn "*mynegi syndod nad oedd y Gweinidog Cynllunio, Carwyn Jones AC, wedi dilyn y camau priodol mewn ystyried cais cynllunio hynod ddadleuol ... gyda bron i hanner ohono ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.*" Roeddent yn dadlau y dylai bod cais cynllunio o fewn Parc Cenedlaethol oedd wedi peri gymaint o ddadlau y tu hwnt i'r gymdogaeth leol, mewn gwrthdaro gyda pholisïau cynllunio cenedlaethol, fyddai'n gallu cael effaith y tu hwnt i'r gymdogaeth leol ac a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd tirwedd, fod wedi ei alw i mewn gan y Gweinidog. Mae'n ymddangos fod y Cynulliad yn ceisio dadlau fod y cynnig o bwysigrwydd cenedlaethol digonol i dderbyn cymorth grant sylweddol ond nad oedd o bwysigrwydd cenedlaethol digonol i gael ei alw i mewn.

Tynnodd gwrthwynebwyr sylw hefyd at ddibenion statudol Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn Adrannau 61 a 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

"(a) Cadw a gwella prydferthwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd a nodir.
(b) Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardaloedd hyn gan y cyhoedd."

Hefyd, wrth fynd ar drywydd y dibenion a'r gofynion statudol hyn bydd Awdurdodau'r Parc yn "*ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parciau. Wrth fynd ar drywydd dibenion Parc Cenedlaethol, "ble yr ymddangosir bod gwrthdaro rhwng y dibenion hyn, rhoddir mwy o bwysau ar y cyntaf*" (Polisi Cynllunio Cymru – Para 5.3.4)

Fel y nododd llythyr o wrthwynebiad gan Gyfeillion y Ddaear Sir Benfro, nid yw lles economaidd Caerwysg yng nghylch ngorchwyl Parc Cenedlaethol Dartmoor er eu bod yn yr un sir. Gwnaeth y llythyr hwn sylwad hefyd nad ydym mewn sefyllfa i gefnogi cadwraeth ardaloedd o ansawdd amgylcheddol, megis fforestydd glaw trofannol, yng ngwledydd tlawd y byd, ble y mae problemau economaidd yn golygu llwgu, pan fyddwn yn diystyrru cadwraeth ein hardaloedd ein hunain.

Roedd y cais cynllunio i fod i gael ei ystyried ym mis Medi, ond gohiriwyd penderfyniad oherwydd ystyriaethau cyfreithiol a'r angen am ragor o wybodaeth hyd fis Rhagfyr. Codwyd pryderon hefyd am rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Gwnaeth Mr Robert McCracken CF, yn gweithredu ar ran y Parc Cenedlaethol sylwad am ddogfen yr oedd wedi ei derbyn, "*ymddengys fel bod perthynas afiach o agos rhwng y Cyngor Cefn Gwlad a'r datblygwyr. Yn fy*

mhrofiad i mae'n ddigynsail i gorff statudol megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru i weithredu fel asiant dros ddatblygwr a pherfformio yn y modd hwn swyddogaeth negesydd"(20). Er i'r Cyngor Cefn Gwlad wrthod yr honiad, beirniadwyd y Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad hefyd gan Gyngor y Cyngor Gwarchod Cefn Gwlad Cymru am ymddangos fel pe bai'n pasio penderfyniadau hollbwysig ar warchod SAC/SSSI drosodd i Asiantaeth yr Amgylchedd. Dywed y dylai'r Cyngor Cefn Gwlad, "*o leiaf fod wedi cofnodi gwrthwynebiad cynnal i Bluestone*" (21).

Argymhellodd swyddogion cynllunio Parc Cenedlaethol wrthod ar y sail ganlynol:

- Y Parc Cenedlaethol yw'r lefel uchaf o ddynodiad ansawdd tirwedd ym Mhrydain, y mae cymdeithas yn dweud y dylai gael ei gadw ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r fframwaith polisi leol a chenedlaethol o ganlyniad yn ei gwneud hi'n ofynnol fod datblygiadau ar y raddfa hon dim ond yn cael eu caniatáu mewn Parciau Cenedlaethol mewn amgylchiadau eithriadol. Nid oedd yr achos hwn wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus. Byddai datblygiad o'r math yma mewn Parc Cenedlaethol yn amhriodol am amryw resymau, gyda'r prif niwed sef y byddai'n achosi i ansawdd y tirwedd a chymeriad yr ardal a'i effaith ar fwynderau a'r tawelwch sy'n cael ei werthfawrogi gymaint gan bobl leol ac ymwelwyr ac sydd ei hun yn fantais economaidd.
- Mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i ofynion Deddf yr Amgylchedd 1995 (a61), a pholisi Cynllun Strwythur Dyfed TR19, a pholisïau Cynllun Lleol GE1 a LA1.

- Nid yw'r prif brawf datblygu a osodir yn Mholisi Cynllunio Cymru wedi ei ddiwallu gan nad yw'r achos a roddir i ddadlau manteision economaidd pwysicaf i'r ardal yn ddigonol i gyfiawnhau iddo gael ei leoli yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw'r cyflwyniad chwaith wedi archwilio'n ddigonol safleoedd eraill yn y Sir fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru.
- Mae'r cynigion darluniadol a ddaw gyda'r cais yn groes i gyngor dylunio sydd wedi ei gynnwys yn TAN12.
- Byddai'n cael effaith andwyol ar rywogaethau sydd wedi eu gwarchod yn Ewropeaidd ac yn genedlaethol.
- Ystyrir ei fod yn groes i naw polisi yng Nghynllun Strwythur Dyfed a thri pholisi ar ddeg yng Nghynllun Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.
- Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried y gallai caniatâd ar gyfer y datblygiad arfaethedig osod cynsail ar gyfer cymeradwyo datblygiadau eraill tebyg ac felly rhagfarn cynllunio go iawn er niwed i fwynderau a chymeriad yr ardal.

Er y dadleuon cynllunio cryf hyn, ynghyd â'r pryderon am effeithiau niweidiol posib i'r amgylchedd ac i sectorau o'r economi leol, mae gwleidyddion, megis yr Aelodau Seneddol lleol Nick Ainger a Jackie Lawrence a'r Aelodau Cynulliad Lleol, Christine Gwyther a Tamsin Dunwoody-Kneafsey, wedi bod yn fwy na pharod i gefnogi'r cais. Roedd hi'n amlwg nad oedd Jackie Lawrence AS wedi ei rhwystro, gan ei rôl fel Is-lywydd y Cyngor Parciau Cenedlaethol, rhag cefnogi datblygiad oedd yn torri'r gofynion statudol y Parciau Cenedlaethol; ac roedd y ddwy Aelod Cynulliad yn hapus i wthio o'r neilltu gyfarwyddyd cynllunio'r Cynulliad ac ymrwymiadau i ddatblygiad cynaliadwy yn eu brys i groesawu addewid economaidd amheus.

Yn gynnar ym mis Rhagfyr, gwrthododd bwyllgor cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro cyngor eu swyddog a phleidleisio i gymeradwyo'r cais. Doedd dim syndod fod hollt amlwg i'w weld yn y pleidleisio rhwng y rhai a benodwyd gan y Cyngor Sir, sy'n fwyafrif ar y pwyllgor, a'r rheini a benodwyd gan Gynulliad Cymru. Cododd hyn bryder ynglŷn â didueddrwydd y penderfyniad gan fod y Cyngor Sir eisoes wedi cymeradwyo rhan o'r datblygiad ac wedi addo benthyciad o £1 miliwn ar gyfer y cynllun.

Yn ddiweddar dywedodd Edward Holdaway, un wedi ei benodi gan y Cynulliad ar bwyllgor Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, "*nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod ystyr cynaliadwyedd. Dydyn ni (Awdurdod Parc Cenedlaethol) yn sicr ddim*" (22).

Caiff y cais cynllunio nawr ei gyfeirio, gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro, i Weinidog yr Amgylchedd LlCC, Carwyn Jones, oherwydd y gwrthdaro gyda pholisïau'r Awdurdod ei hun. Os bydd yn methu galw'r cais hwn i mewn a chynnal ymchwiliad cyhoeddus, mae'r Cyngor dros y Parciau Cenedlaethol wedi datgan y bydd yn ystyried cymryd camau cyfreithiol oherwydd difrifoldeb goblygiadau y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfer parciau Cenedlaethol yn y DG. Golyga methiant i alw'r cais hwn, sydd â chymaint o oblygiadau sy'n peri pryder ar gyfer gwarchod ardaloedd amgylcheddol mwyaf gwerthfawr y DG, i mewn nad yw ymrwymiad byd-arweiniol y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy yn golygu dim. Byddai'n eironig, os nad yn warthus, fod y cais cynllunio fyddai'n gosod cynsail ar gyfer datblygiadau graddfa fawr o fewn Parciau Cenedlaethol yn torri eu cylch gwaith sylfaenol eu hunain i gynnig lefelau uwch o warchodaeth amgylcheddol a thirwedd, ddigwydd yng Nghymru, yr un wlad yn y DG gyda dyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Byddai nifer o astudiaethau achos eraill, megis y cais cynllunio i ymestyn cwrs golff a datblygu clwb a chyfleusterau newydd ger ymgeisydd Ardal Arbennig o Gadwraeth yr Afon Wysg yng Nghaerllion, gwrthwynebiad awdurdod lleol i'r fferm wynt ar y môr Scarweather Sands arfaethedig a ffordd osgoi 'Butlins' yr A497 yng Ngwynedd, wedi dangos patrwm tebyg o bolisïau mewn gwrthdrawiad ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn anffodus maent yn dangos yn rhy aml mai ychydig o wahaniaeth i weithgareddau ar y llawr a gaiff yr egwyddorion gwych a fabwysiadir gan y Cynulliad.

10. Canlyniadau ac Argymhellion

Mae Cynulliad Cymru wedi derbyn canmoliaeth haeddiannol ar y fenter feiddgar y mae wedi ei chymryd i geisio integreiddio datblygu cynaliadwy i'w holl weithgareddau ac am gynhyrchu cynllun datblygu cynaliadwy a chynllun gweithredu sydd wedi amlinellu gweledigaeth fanwl a rhaglen o sut y gellir cyflawni hyn. Mae'r pedwar adroddiad sydd wedi asesu perfformiad y Cynulliad a sydd wedi eu crynhoi yn gynharach yn yr adroddiad, yn cydnabod yr ymdrech sylweddol sydd wedi eu gwneud gan rai o staff y Cynulliad a gweinidogion mewn ymateb i'r her yma. Mae nifer o anawsterau, fodd bynnag, wedi eu nodi fel rhwystr i gynnydd.

Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain fu'r broblem o ddeall yr hyn a olygir gan y term datblygu cynaliadwy. Bu dryswch eang ynglŷn â'r cysyniad sydd wedi ymddangos yn amwys ac heb fod yn berthnasol i weithgaredd bob dydd. Mae nifer o ddiffiniadau a gynigwyd wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys un Brundtland a ddefnyddir gan y Cynulliad a'i ddehongliad ohono ond yn cymryd i ystyriaeth faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae rhagor o ddryswch wedi ei achosi gan y Cynulliad yn mabwysiadu datblygu cynaliadwy, anfantais cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal fel tair thema ar wahân yn ei gynllun strategol.

Argymhelliad 1

Mae angen i'r Cynulliad gynnig diffiniad cliriach o ddatblygiad cynaliadwy sydd, o leiaf, yn rhoi statws cyfartal i faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae gormod o bwyslais ar "*lefelau uchel o dwf economaidd*" ar draul materion cymdeithasol ac amgylcheddol. Dylid disodli CMC fel mesur o gynnydd gyda mesur, megis y Mynegai o Les Economaidd Cynaliadwy, sy'n cyfuno ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i un mesur o les a chynnydd. Byddai dangos hyn gydag enghreifftiau ymarferol o weithgareddau cynaliadwy yn gymorth i "ddod â datblygiad

cynaliadwy i fywyd". Mae yna hefyd angen am well dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy i gael ei chyfleu yn rhagweithiol o fewn y Cynulliad ac i holl aelodau'r Cynulliad, yn arbennig awdurdodau lleol, ASPB a'r gymuned fusnes.

Un o'r rhwystrau mwyaf i dderbyn materion amgylcheddol fel rhai sydd o bwysigrwydd cyfartal i rai economaidd yw'r gred hen ffasiwn y gall mabwysiadu safonau amgylcheddol uchel atal datblygiad a cholli swyddi. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn herio'n gred hon yn gryf ac yn dangos mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Mae camdybiaeth eang, fodd bynnag, yn dal i fod ymhlith y cyhoedd, awdurdodau lleol, y gymuned fusnes ac mewn mannau eraill fod gofalu am yr amgylchedd yn costio swyddi.

Argymhelliad 2

Mae'r astudiaeth hon yn argymell fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth sy'n ymchwilio i'r berthynas rhwng arfer amgylcheddol da a chreu swyddi.

Mae wedi ei nodi, mewn adroddiadau eraill sy'n asesu perfformiad datblygu cynaliadwy y Cynulliad, nad oes gan y sector busnes fawr o diddordeb mewn materion datblygu cynaliadwy. Bydd busnesau yn aml yn amheus o neu'n wrthwynebus i bryderon amgylcheddol a gwêl llawer y Dreth Newid Hinsawdd fel treth arall i'w thalu gyda dim budd iddynt hwy. Er bod y Carbon Trust yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o gwmnïau, bydd nifer o fusnesau'n derbyn ychydig neu ddim cymorth.

Argymhelliad 3

Mae'r astudiaeth hon yn argymell bod y Cynulliad yn gwneud ymdrech arbennig i wneud y gymuned fusnes yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd a manteision datblygu cynaliadwy. Mae angen darparu mwy o gyngor a chefnogaeth ar gyfer mesurau megis gwella effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff a datblygu mathau o gludiant sy'n llygru llai.

Dangosodd yr astudiaethau achos ei bod hi'n anodd gwrthwynebu ceisiadau cynllunio hyd yn oed pan fyddant yn gwrthdaro gyda pholisïau cynllunio, pan oeddent yn cael eu gwrthwynebu gan y mwyafrif o bobl leol neu pan oeddent yn achosi niwed amgylcheddol amlwg. Yn rhy aml, bydd agweddau economaidd ceisiadau cynllunio yn cymryd blaenoriaeth dros bryderon cymdeithasol ac amgylcheddol, ac mae'r Cynulliad yn gwrthod ymyrryd. Ar hyn o bryd, er y datganiadau gwych gan y Cynulliad, ychydig o effaith gaiff datblygu cynaliadwy ar y system gynllunio yng Nghymru.

Argymhelliad 4

Dylai hawl apelio trydydd person gael ei chyflwyno mewn achosion:

- **sy'n cael effeithiau mawr ar yr amgylchedd**
- **ble mae swyddog wedi cymeradwyo gwrthod a bod aelodau etholedig yn newid y penderfyniad hwn**
- **Ble y mae gan awdurdodau lleol wrthdaro o ran buddiannau, megis pan mai nhw yw'r ymgeisydd, bod ganddynt ddiddordeb yn y cwmni sy'n gwneud y cais am ganiatâd cynllunio, ble mai'r awdurdod lleol sy'n berchen ar y tir a bod ganddo ddiddordeb yn ei werth ased cynyddol, ac achosion ble y bydd yr awdurdod lleol yn elwa o daliadau cyfalaf sylweddol drwy ymrwymiadau cynllunio**
- **Ble y bydd yr awdurdod lleol yn rhoi caniatâd cynllunio yn erbyn ei bolisi cynllun datblygu ei hun.**

Yn ogystal â'r ddadl egwyddorol ynghylch tegwch a chyfiawnder, byddai cyflwyno hawliau trydydd person yn helpu i ail-gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau cynllunio dadleuol drwy ddangos fod ganddynt rôl gref i'w chwarae. Byddai'r syniad o brofi penderfyniadau'n fanwl yn gwella eu hansawdd a'u cyfreithlondeb. Dangosodd yr astudiaethau achos a ystyriwyd gan yr adroddiad hwn fod digon o alw am hawl o'r fath.

Ym mis Gorffennaf eleni, daw Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yr UE yn weithredol yn y DG. Diben yr AAS yw sicrhau fod canlyniadau amgylcheddol polisïau, cynlluniau a rhaglenni'n cael ei nodi a'u hasesu yn ystod eu paratoad a chyn eu mabwysiadu. Mae felly'n erfyn hollbwysig yng nghyflwyniad datblygu cynaliadwy ac integreiddiad syniadaeth amgylcheddol ar draws holl bolisïau a gweithrediadau Llywodraeth. Bydd yn gofyn am Asesiad Effaith Traffig ac Asesiad Effaith ar Iechyd o bob cynnig ar gyfer datblygiad sylweddol. Mae Senedd yr Alban eisoes wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno AAS yn fuan a bydd yn mynd tu hwnt i'w ofynion drwy gynnwys pob strategaeth, rhaglen a chynllun newydd yn y sector cyhoeddus.

Argymhelliad 5

Mae'r adroddiad hwn yn argymell y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr unig lywodraeth yn y DG gyda dyletswydd i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, yn cymryd rôl arweiniol mewn gweithredu'r Gyfarwyddeb AAS. Anogwn Lywodraeth y Cynulliad i, er enghraifft, gyflwyno Asesiadau Effaith ar Iechyd ar gyfer pob datblygiad sylweddol ar y cyfle cyntaf. Mae Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu Uned Asesiadau ar Iechyd Cymru fydd yn ddiamau yn gallu cynorthwyo'r Cynulliad.

Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn nodi (adran 5.7) y bydd y Cynulliad yn arwain drwy esiampl. Nid yw hyn yn digwydd. Dengys yr astudiaethau achos fod y Cynulliad yn methu galw ceisiadau cynllunio i mewn sy'n amlwg yn gwrthdaro gyda datblygu cynaliadwy. Os pery hyn, yn fuan caiff ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy ei ystyried yn ddiystyr. Bydd ymateb y Cynulliad i bwyllgor Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn rhoi caniatâd cynllunio, yn erbyn cyngor ei swyddogion ei hun, i gais Parc Hamdden Bluestone yn Sir Benfro yn brawf litmws o fwriadau Llywodraeth y Cynulliad. Ac, er ei fod yn falch o rai camau y mae wedi eu cymryd, megis prynu trydan gwyrdd, cyflwyno cynllun cludiant gwyrdd newydd ar gyfer ystad y Cynulliad, cymryd rhan mewn rhwydweithiau datblygu cynaliadwy rhyngwladol, mabwysiadu'r ôl-troed ecolegol fel dangosydd a datblygu'r Erfyn Integreiddiad, nid y rhain yw'r materion 'tyngedfennol' y mae adroddiad CAG Consultants yn eu nodi fel bod yn angenrheidiol i fynd i'r afael â hwy er mwyn symud o bolisïau datblygu cynaliadwy i gyflwyniad.

Argymhelliad 6

Rhaid i'r Cynulliad gymryd rôl arweiniol gryfach ar faterion datblygu cynaliadwy. Man cychwyn da fyddai galw i mewn geisiadau cynllunio sy'n gwrthdaro gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy hyd yn oed os golyga hyn sefyll i fyny i arweinwyr llywodraeth leol. Dylai'r Cynulliad, fel yr argymhellir gan adroddiad Netherwood, roi mwy o bwysau ar awdurdodau lleol i brif ffrydio datblygu cynaliadwy mewn arweiniad strategaeth gymunedol a chytuniadau polisi cyflwyno archwiliadau gan y Comisiwn Archwilio o berfformiad datblygiad cynaliadwy awdurdodau lleol; ac, ynghyd â CLILC, feithrin gwell proffil gwleidyddol ar gyfer datblygiad cynaliadwy ymhlith aelodau lleol ac uwch reolwyr o fewn awdurdodau lleol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cefnogi'r argymhellion yn adroddiad WWF/Flynn y dylai ariannu i awdurdodau lleol gael ei wneud yn amodol arnynt yn gwella polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru mewn modd

tebyg i osod cyllidebau yn Senedd yr Alban a llywodraeth y DG, ac y dylai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sydd â record wael ar dderbyn materion, megis y WDA, gael eu diwygio.

11. Cyfeiriadau

1. Cyd-ymateb Bwrdd Croeso Cymru a CLILC i ymgynghoriad y CE ar Dueddiadau Sylfaenol Cynaladwyedd Twristiaeth Ewropeaidd (Gordd 31ain 2003)
2. 'A Sustainable Europe for a Better World – a European Strategy for Sustainable Development 2001'
3. Y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Chwaraeon Cymru, Y Llyfrgell Genedlaethol, Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru, Yr Amgueddfa Genedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Y WDA, ACCAC a Chyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru.
4. Daeth EXTERNE, raglen ymchwil yr UE, i'r casgliad y byddai'n rhaid i bris trydan a gynhyrchir drwy losgi glo ddyblu pe bai i gynnwys costau niwed i iechyd a'r amgylchedd
5. 'The Pembrokeshire Coast Path: National Trail User Survey 1996-97' – Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1998)
6. 'The Economic Impact of Welsh National Nature Reserves' – adroddiad i'r Cyngor Cefn Gwlad gan Christie,M., Keirle,I., a Scott,A., o Sefydliad Materion Gwledig Cymru, Prifysgol Cymru, Aberystwyth (1998)
7. 'Double Yield: Jobs and Sustainable Food Production' gan Vicki Hird ar gyfer Cynghrair S.A.F.E (1997)
8. 'Energy Efficiency and Jobs: UK Issues and Case Studies' – Adroddiad gan y Gymdeithas Cadwraeth Ynni i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (Medi 2000)
9. 'Green Jobs: Sustainable Job Creation in the European Union' gan Undeb y Gweithwyr Cyffredinol yn Nenmarc (1999)
10. Atodiad Ymwybyddiaeth Gwastraff y Western Mail Chwefror 2003
11. The Guardian, Mawrth 28ain 2001
12. 'Economic Well-Being and Environmental Protection in the Pacific Northwest' gan Economegwyr Pacific Northwest (1996)
13. Western Mail 20-8-01
14. Datganiad i'r wasg y Comisiynydd Plant 11eg 2001
15. Datganiad i'r wasg CLILC 17eg 2001
16. Ymgynghoriaeth Capita Gwent – Amcanion ffordd osgoi arfaethedig Bargoed
17. Adroddiadau gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r \Pwyllgor Trafnidiaeth, Cynllunio a Datblygu Economaidd, 30-8-00 ar arolygon a gynhaliwyd ar gyfer y Cyngor gan Research and Marketing Ltd
18. Western Mail 11-6-03
19. 'The Impact of Out-of-Centre Food Superstores on Local Retail Employment' gan S Porter a P Raistrick, Ionawr 1998
20. Western Telegraph 8-10-03
21. Llythyr i PCNPA 10-11-03
22. Western Telegraph 22-10-03

© Cyfeilion y Ddaear Cymru, Ionawr 2003

Friends of the Earth Cymru inspires solutions to environmental problems, which make life better for people.

Friends of the Earth Cymru:

- **is dedicated to protecting the environment and promoting a sustainable future for Wales**
- **is part of the UK's most influential environmental campaigning organisation**
- **is part of the most extensive environmental network in the world, with over 60 national organisations across five continents**
- **supports a unique network of campaigning local groups, working in communities across Wales**
- **is dependent upon individuals for over 90 per cent of its income.**

To join or make a donation call us on 0800 581 051

Friends of the Earth Cymru, 33 Castle Arcade Balcony, Cardiff CF10 1BY
Tel 029 2022 9577 Fax 029 2022 8775 Email cymru@foe.co.uk Website www.foecymru.co.uk

Friends of the Earth Limited Registered in London No 1012357. Registered office 26-28 Underwood Street London N1 7JQ